

# ECO'R WYDDFA

RHIF 299

EBRILL 2003

PRIS 40c

Yn y rhifyn hwn

**BAND AR Y BRIG** tud. 3

**RYGARUG** tud. 8

## DIM CARNIFAL LLANBÊR

Siom i'r ardal – neb yn fodlon helpu



*Hwyl yr Wyl – y rhai ffyddlon yn gwisgo ar gyfer yr achlysur! Ceinwen Williams, Gwilym Evans, Ian Williams, Dilys Roberts, Eiddwen Thomas, Alan Jones, Eurwyn Thomas, Arwyn Roberts, Carys Williams, Arfon Philips.*

Bydd bwlch yng nghalendr gweithgareddau pentref Llanberis eleni, a hynny am y tro cyntaf ers 30 mlynedd. Ni chynhelir y Carnifal. Nid yn unig fod y cyhoeddiad yn dipyn o sioc, ond mae hefyd yn siom i filocdd sy'n mynychu Cae Goeden o flwyddyn i flwyddyn. Nid trigolion Llanberis yw'r unig rai ddaw i fwynhau yr amrywiol weithgareddau – daw pobl o bod cwr o'r Gogledd yma i sawru awyrgylch un o garnifalau mwyaf lliwgar a byrlymus o fewn eu cyrraedd. O safbwynt codi arian i gymdeithasau a mentrau lleol bu'r Carnifal yn llwyddiannus iawn. Nid ai blwyddyn hcbio hcb i goffrau cymdeithasau penodedig elwa'n sylweddol.

Dirgelwch a siom digamoyniol i'r trefnwyr ffyddlon (rhai ohonynt wedi bod wrth y llyw ers 30 mlynedd) oedd deall, er yr holl apelio taer, nad oedd neb yn fodlon ymuno â'r pwyllgor i gario'r gwaith ymlaen. Diogi, difaterwch, prysurdeb, galwch o beth fynnoch chi – un lle fydd ar ei golled – pentref Llanberis.

Roedd y siom yn amlwg yn llais Eurwyn Thomas, y Cadeirydd presennol, pan oedd yn olrhain hanes y Carnifal.

Bu'n ymwneud â'r gweithgareddau ers ei gychwyn.

'Y clwb ieuencid a ailgyfododd y carnifal er mwyn codi arian i'r goffrau, yna y clwb pêl-droed, ac yna fe ffurfiwyd y pwyllgor carnifal. Bu 40 o bobl yn ymwneud â'r trethiadau ar un adeg, ond erbyn hyn dim ond llond dwrn o'r ffyddloniaid sydd ar ôl.'

Ychwanega Eurwyn y byddai rhai o'r pwyllgor yn fodlon aros am gyfnod byr i gynorthwyo trefnwyr newydd.



*Cychwyn yr orymdaith – ond a welwn un arall?*

Gwaith gwirfoddol ydyw ond mae wedi rhoi boddhad a phleser i lawer dros y degawdau.

Hoffai Eurwyn ddiolch o waelod calon i'r llu fu, o bryd i'w gilydd, yn gosod ysgwyddau dan yr iau i sicrhau carnifal llwyddiannus bob blwyddyn.

Mac'n ofid calon i Eco'r Wyddfa fod scfydliad, sydd wedi bod mor bwysig i ddyfodol y fro, ar fin cael ei ddiddymu, ac o'r herwydd hoffem ofyn dau gwestiwn sylfaenol i brocio meddwl a chydwybod unrhyw un sy'n caru ei fro.

Yn gyntaf, os nad oes ieuencid neu waed ifanc yn fodlon cymryd yr awenau, onid yw'n ddyletswydd ar rieni i'w perswadio'n daer, gan danlinellu mai nhw yw dyfodol y fro?

Yn ail, gan fod sawl cymdeithas yn Llanberis wedi derbyn rhoddion hael iawn o

gronfa'r carnifal yn y gorffennol, onid yw'n ddyletswydd arnynt hwythau i ethol dau neu dri chynrychiolydd o'u plith i fynychu pwyllgor i dalu'r ffafwr yn ôl, i ddangos parch a gwerthfawrogiad o ymdrechion trefnwyr y gorffennol, ac i achub y carnifal?

O ymateb yn bositif, drigolion Llanberis, chi fydd ar eich ennill ond, o ymateb yn negyddol, byddwch yn dystion ar ddechrau canrif newydd i arwyddion pendant o dranc cymdeithas.

Gweithredwch heddiw – bydd yfory yn rhy hwyr.

Am fwy o  
newyddion  
pentref  
Llanberis  
Tud. 9



# ECO'R WYDDFA

**RHIF 299  
EBRILL 2003**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd  
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth  
Bwrdd yr Iaith Gymraeg  
i'r cyhoeddiad hwn.

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

### Tim Golygyddol

d/o PALAS PRINT  
7B STRYD PLAS  
CAERNARFON  
Ffôn/Ffacs (01286) 674631  
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631  
Bryn Jones (01286) 674405  
Llinos Jones (01286) 871820

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**  
Arwel Jones

**GOLYGYDD CHWARAEON**  
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.  
(01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**  
Gwynhaf Hughes, Glasgoed,  
Llanrug (677263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION**  
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd  
Glanffynnon, Llanrug (675605)

**TREFNYDD BYNDELU**  
Jaan Jones, Casail y Mynydd,  
Deiniolen (871550)

**TRERFNYDD ARIANNOL**  
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon  
Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHANT POST**  
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon  
Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD PLYGU**  
Shioned Griffith (650570)

### GOHEBWYR PENTREFI

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran  
(01248) 670726

**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-  
Williams, Godre'r Coed (870580)

**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn  
Gwna (677438)

**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen,  
Dudafon, Ceunant (050700)

**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands,  
Glanrafon (872275)

**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt,  
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**DEINIOLLEN:** Mrs Margaret Cynll Griffith,  
(870394)

**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts,  
Swyn-y-Gwynn (870740)

**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn  
(675384)

**NANT PERIS:** Llinos Jones, 6 Nant  
Ffynnon (871820)

**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth  
(872407)

**TAN-Y-GOED:** Miss Anwen Parry,  
Ael-y-Bryn (872276)

**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon,  
Waunfawr (650570)

### Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r  
golygyddion perthnasol

**NOS LUN, EBRILL 21**

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg  
**NOS IAU, MAI 1**

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

| Rhifyn   | Dyddiad Copi | Dyddiad Plygu | Ble       | Cysylltu â     | Rhif Ffôn |
|----------|--------------|---------------|-----------|----------------|-----------|
| Chwefror | 21 Ionawr    | 30 Ionawr     | Cwm-y-glo | Iris Rowlands  | 872275    |
| Mawrth   | 17 Chwefror  | 27 Chwefror   | Llanrug   | Eifion Roberts | 676339    |
| Ebrill   | 18 Mawrth    | 27 Mawrth     | Waunfawr  | Nan Roberts    | 650570    |
| Mai      | 21 Ebrill    | 1 Mai         | Deiniolen | Jean P. Jones  | 871550    |

### Annwyl ddarlennwyr

Dyma nodyn i'ch hysbysu fod yna safle arbennig i'ch papur bro i'w weld ar wefan BBC Cymru'r Byd - 'Lleisiau Lleol'. Darllenwch stori newyddion o'ch bro bob mis, erthygl am ddalgylch y papur a ysgrifennwyd gan berson lleol, a gweld oriel o luniau yn portreadu'r ardal. Gallwch hefyd weld rhestr o ddigwyddiadau ar hyd a lled Cymru ar y safle.

Os ydych chi'n byw yn lleol, wedi symud i ffordd, neu'n byw dramor hyd yn oed - cadwch mewn cysylltiad â newyddion yr ardal a bröydd eraill Cymru trwy ymweld â safle Lleisiau Lleol. A dyma'r cyfeiriad:

www.bbc.co.uk/cymru/lleisiau/  
lleol/gogleddorllewin/

Manteisiaf ar y cyfle i ddiolch yn fawr i swyddogion a darllenwyr y papur am eich cefnogaeth wrth lansio'r safle. Mwynhewch!

Yn gywir iawn,  
Elin Wyn Davies

### Cyngerdd

Bydd Cyngerdd yn cael ei gynnal i godi arian tuag at Uned Alaw, Ysbyty Gwynedd, Bangor ar nos Sul, Ebrill 27.

Trefnir y Cyngerdd, sydd i'w gynnal yn Ncuadd PJ, Ffordd y Coleg, Bangor, gan Seindorf Arian Deiniolen. Arweinydd y noson fydd Terry Phips. Yn cymryd rhan yn y cyngerdd fydd John ac Alun, Sharon Evans, Chicas, Pwy Fasa'n Meddwl, Côr Sciriol a Chôr Plant Ynys Môn ynghyd â Seindorf Arian Deiniolen.

Bydd holl elw'r noson yn mynd at Ward Alaw Ysbyty Gwynedd. Cost tocynnau fydd £6 a gellir eu prynu drwy ffonio Meirion Jones ar (01286) 870452, o Siop Lyfrau Palas Print, Stryd y Plas, Caernarfon (674631) neu o Llên Llŷn Pwllheli.

### RHODDION

£10: Er cof am Bet Hughes (Bet Bach), 18 Snowdon Street, Llanberis; Er cof am Rhona Thomas, Llanberis.

£8: Di-enw.

£5: Delyth a Selyf, Llanberis; Siân a Maldwyn Morris, Llanberis; Mrs Elsie Williams, Granville, Bethel.

£1: Mrs R. E. Griffiths, Treowen, Newtown.

### Dim Digon o Ddynion

Mae côr cymysg newydd sydd wedi dechrau cyfarfod yn y Felinheli yn despret am ddynion! Mae'r côr ifanc pedwar llais, sy'n cael ei arwain gan Guto Puw, yn cyfarfod bob nos Fercher yn Ysgol Gynradd y Felinheli ac yn awyddus i wahodd aelodau newydd o ardal yr Eco - ac yn arbennig tenoriaid a baswyr. Dylai unrhyw un sydd â diddordeb, ac yn arbennig dynion, gysylltu â Guto Puw ar (01248) 354071 neu'r cyfeilydd Andrew Angel ar (01286) 831699.

### Cymanfa Talgylch yr Eco

Erbyn hyn mae'r trefniadau ar gyfer Cymanfa talgylch Eco'r Wyddfa, sydd i'w chynnal yn y Capel Coch, Llanberis nos Fawrth, 6 Mai, bron wedi eu cwblhau.

Bydd Cwmni Teledu Elidir yn recordio dwy Gymanfa y noson honno. Y Gymanfa gyntaf yn canolbwyntio ar gyflwyno emynau a thonnau rhai a fu'n gysylltiedig â bro Eco'r Wyddfa, sef John Roberts (Ieuan Gwyllt), cyn Weinidog Capel Coch; R. H. Watkins, cyn Weinidog Ysgoldy, Clwt y Bont; R. R. Morris, Betws Garmon; William Owen, Prysgol, Caeathro; T. Rowland Hughes a Gutyn Arfon, y ddau o Lanberis; ac M. O. Jones, gynt o Ddinorwig ac fe genir deuaud gan Siân Gibson a Rhian Owen o emyn Dilys Baylis, Llanberis a'i brawd Edwin Lloyd Jones.

Y mae yn gynwysiedig yn y rhestr rai o emynau mwyaf poblogaidd Cymru. Y ddau arweinydd yn y Gymanfa hon fydd Lowri Prys Roberts

Williams, Brynrefail a Robin Jones, Bethel.

Bydd yr ail Gymanfa, a recordir yr un noson, yn canolbwyntio ar thema y Diolchgarwch ac arweinyddion y Gymanfa hon fydd Glenys Griffiths, Bethel ac Arwel Jones, Penisarwaun. Gareth Jones, Llanberis fydd organydd y ddwy Gymanfa. Disgwylir cyfraniad hefyd gan Gôr Ysgol Brynrefail. Yn rhestr emynau y Gymanfa hon hefyd fe geir emynau sydd ymysg ffefrynnau pob Cymro.

Cynhelir ymarfer nos Fawrth, Ebrill 29, sef yr wythnos flaenorol am 7 o'r gloch yn y Capel Coch, a hyderir yn fawr y ceir cynulleidfia deilwng i'r ymarfer i hwyluso gwaith yr arweinyddion, ac wrth reswm wedyn ar Fai 6. Mae eich presenoldeb yn yr ymarfer yn dra phwysig.

Erfynnir am gefnogaeth aelodau corau, ac aelodau capeli ac eglwysi y fro. Dyhead a gobaith y pwyllgor sydd yn trefnu yw y bydd y ddwy Gymanfa yn gyfle i ardalwyr talgylch yr Eco, o Fetws Garmon i fyny i Ddinorwig, ac i lawr i Nant Peris dalu terynged i emynwyr a chyfansoddwyr fu yn gysylltiedig â'r ardaloedd hyn ac yn gyfle i ddangos i Gymru gyfan ddawn gerddorol drigolion cyfoes y bröydd hyn. Darperir maes parcio. Nodwch y ddau ddyddiad.

## GWERSI PIANO

Sharon V. Williams B.A.  
Pentir (01248) 353746



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI  
CELTIC** WINDOWS

**FFENESTRI - DRYSAU - CONSERFATERIS  
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad  
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

**HEN YSGOL GLANMOELYN  
LLANRUG LL55 2RG**



(01286) 678618 (dydd)  
(01248) 670081 (nos)





# AR BRIG Y DÔN

## Llwyddiant Band Llanrug



*BUDDUGOL: Seindorf Arian Llanrug, y tu allan i Neuadd y Brangwyn, Abertawe.*

**MAE** Seindorf Arian Llanrug ar eu ffordd i gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth Bandiau Pres Prydain. Ac mae nhw ar frig eu hadran wedi Pencampwriaeth Bandiau Pres Cymru yn Abertawe ar Fawrth 15.

Nawr byddant yn mynd yn eu blaenau i gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth Bandiau Pres Prydain yn Dundee mis Medi.

Daw'r fuddugoliaeth mewn cyfnod lle mae'r band yn mynd o nerth i nerth. Dim ond pum mlynedd yn ôl roedd y band yn y bedwaredd adran. Ar ôl ennill eu hadran yn y bencampwriaeth yn Abertawe yn 1998 cafodd y seindorf ddyrchafiad i'r drydedd adran. Wedyn yn 2002 daeth dyrchafiad arall i'r ail adran - a mae nhw'n gobeithio mynd i'r gyntaf eleni.

Roedd naw o fandiau yn cystadlu yn yr ail adran a daeth Llanrug yn fuddugol o ddau bwynt, a'n band llcol arall Deiniolen yn bumed. Hwn oedd y tro cyntaf i'r ddau fand gystadlu yn erbyn ei gilydd ers bron i ddeng mlynedd. A gyda nifer o gerddorion ifanc yn chwarae ar lwyfan am y tro cyntaf i Ddeiniolen, mae'n

ymddangos bod y dyfodol yn argoeli'n dda i'r ddau fand.

Llanrug oedd yr ail fand i gymryd y llwyfan yn neuadd y Brangwyn a chafwyd canmoliaeth arbennig gan y beirniad - dywedodd bod ganddynt gyfle gwych i ddod a'r cwpan Brydeining adref o Dundee.

Arweinydd y band yw Gavin Saynor, y chwaraewr bas rhagorol o Fangor. Dywedodd Berwyn Owen, baswr a chadirydd y band, bod Gavin yn cael ei gydnabod fel un o'r baswyr gorau yn y byd. Mae o'n aelod o fand byd enwog y Yorkshire Building Society. Yn ogystal â'i waith dyddiol ac arwain band Llanrug, bydd Gavin yn teithio'r siwrna hir i Huddersfield ddwy waith yr wythnos i ymarfer a rhoi o'i amser i chwarae mewn cyngherddau ac ati.

Meddai Berwyn, 'Mae'n fraint i'r band ei fod o'n rhoi ei amser prin i'n harwain a braf iawn ydi gweld ffrwyth ei lafur yn disgleirio 'nôl yn ei gynefin. Ryda ni'n ddiolchgar iawn iddo fo.

'Mae nifer o aelodau'r band yn dod o ardal yr Eco, Caernarfon, Dyffryn Ogwen, Sir Fôn, Prifysgol Bangor. Mae 'na rai hefyd yn dod o Fac

Colwyn, Treffynnon, Llaneurgain - ac mae un yn teithio'r holl ffordd o Buxton! Y dŵr yn well yn Llanrug, medda fo!'

Roedd mis Mawrth yn gyfnod prysur i'r band - cafwyd cyngerdd llwyddiannus yn Theatr Seilo, Caernarfon, gyda Chôr Eryri, plant Ysgol Gynradd Llanrug, Ffion, a'r Band Ieuencid hefyd yn cymryd rhan.

Hoffai'r band ddiolch i Dafydd Arfon am arwain y noson. Roedd y gynulleidfa wedi mwynhau y cyngerdd ac fe roddodd y band bach - band ieuencid Llanrug - bcrfformiad arbennig. Dymuna'r band ddiolch i drigolion y pentref am yr holl gefnogaeth. Bydd llawer o weithgareddau yn cael eu cynnal dros yr haf i godi arian at y trip i Dundee. Os am fwy o fanylion am y band, cysylltwch â'r cadeirydd, Berwyn Owen ar 01286 678161.

Canlyniadau Pencampwriaeth Bandiau Pres Cymru

Ail Adran (y pum safle cyntaf)

- |    |               |     |
|----|---------------|-----|
| 1. | Llanrug       | 185 |
| 2. | Penclawdd     | 183 |
| 3. | Britain Ferry | 182 |
| 4. | Blaenafon     | 181 |
| 5. | Deiniolen     | 180 |



**ORIEL**  
**CWM**  
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio  
Lluniau o bob math  
ar gael ar y safle  
Prisiau Rhesymol  
Arddangosfa o luniau  
gwreiddiol gan  
Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

**EMYR**  
**JONES**

**PLYMAR A**  
**PHEIRIANNYDD**  
**GWRESOGI**



Cynnal boileri nwy,  
olew, tanwydd solat  
a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug  
**CAERNARFON 673513**  
Ffôn Symudol: 07774 496616



# O SIAMBAR SELWYN

## O Siambar Selwyn

Rydw i'n sgwennu'r llith hwn yn Cala Bona, Majorca. Mae'n arferiad gen i ddod yma ddwywaith y flwyddyn - yn gynnar yn y gwanwyn, ac yn hwyr yn yr hydref.

I'r un lle y bydda i'n dod bob tro. Yr un gwesty, a'r un ystafell os yn bosib. Ystafell ar lawr gweddol uchel yn wynebu'r môr. A dyna lle rydw i ar hyn o bryd yn ceisio rhoi gair neu ddau hefo'i gilydd ar gyfer yr *Eco*.

Mi fydda i'n edrych ymlen at ychydig o seibiant yr adeg yma o'r flwyddyn. Mae galwadau'r gaeaf mwy neu lai trosodd. Bwm yn lwcus eleni eto i fedru cyflawni fy holl addewidion i eisteddfodau a chymdeithasau llenyddol ac i fudiadau eraill fel Merched y Wawr.

Mi fydda i ofn trefnu ac addo mynd i rywle go anghysbell yn ystod misoedd anwadal dechra blwyddyn rhag ofn i mi fethu cyflawni fy addewid. Dwi ddim yn hapus yn dreifio os oes rhew ar y ffyrdd.

Mi fwm i mewn un lle yn ystod mis Ionawr eleni na fwm i rised yno o'r blaen, er i mi glywed am y lle sawl tro. Roeddwn i'n gyfarwydd â cherdd enwog y Prifardd T. Rowland Hughes i Salem, ac mi wrandwais ar ddwsinau o blant yn adrodd y gerdd dros y blynyddoedd. Ond fwm i rised yno.

Fwm i ddim yno ar noson ddrycinog yn niwedd Ionawr eleni chwaith. Dim ond pasio'r lle, a Morus yn chwythu'n wyllt ac Ifan yn bwrw hen wragedd a ffyn.

Be gebyst oeddwn i'n wneud mewn llecyn mor anghysbell ar noson mor stormus meddech?

Wel, ar fy ffordd roedwn i i gyfarfod o Gymdeiths Llenyddol Cwm Nantcol, tu draw i Gapel Salem ac i fyni'r lôn gul droellog. Diolch i'r drefn roedd gen i sioffer i'm cludo o Llanbedr i fyni'r cwm.

Roeddwn i'n gyfarwydd â Llanbedr gan i mi fod yn cynnal cwrs barddoniaeth gyda'r plant yn yr ysgol leol ychydig o flynyddoedd yn ôl, ac mi sylwais ar yr arwydd yn cyfeirio at Gwm Nantcol y pryd hynny, ond fwm i ddim yno.

Wrth deithio drwy'r ddrycin ar hyd y ffordd droellog i fyni'r cwm, roeddwn i'n dechrau pryderu ac yn gofyn i mi fy hun, pwy ddeuai i le mor anghysbell ar noson mor ddrycinog i wrando ar ddarlith.

Cyrraedd y neuadd ym mhen ucha'r cwm) tua phedair milltir o Llanbedr, reit siŵr). Oedd, roedd 'na tua dwsin o geir tu allan i'r neuadd, ac er mawr syndod a llawenydd i mi, roedd 'na dros drigain o gynulleidfa yno. Does 'na ddim byd mwy diflas na cheisio diddanu criw bach o tua hanner dwsin mewn neuadd am awr. Na, diolch i'r drefn, roedd 'na griw llon a hwyliog yn neuadd Cwm Nantcol.

Does 'na fawr o boblogaeth, yn naturiol, mewn lle mor anghysbell ond mac yno scoligion sy'n mynychu pob cyfarfod o'r Gymdeithas ac yn dod yno yn rheolaidd pob pythefnos, o lefydd cyfagos megis Talsarnau a Harlech. Cynhelir y Gymdeithas pob

pythefnos gan drefnu gyrfa chwist ar yn ail â darlith neu gyngerdd.

Ches i ddim cystal noson ers tro byd. Y croeso yn wresog a'r ymateb yn hwyliog, ac roedd 'na flas arbennig ar y frechdan samon a'r baned ar y diwedd, a'r sgwrs hefo rhai fel y Cyngorydd Evie Morgan yr un mor flasu. Sgwrs am hen eisteddfodau Talsarnau.

Ysgwn i faint fyddai'n troi i fyni mewn rhai o bentrefi poblog *Eco*'r Wyddfa i wrando ar ddarlith/sgwrs ar noson mor ddrycinog? Digon o waith y gwelid dros drigain mewn unrhyw bentre.

Dwi wedi addo mynd yno eto yn yr haf, i mi gael gweld gogoniant y Cwm a gwerthfawrogi'r olygfa. Mae'n bur debyg y gwna i droi i mewn i Gapel Salem y pryd hynny, i mi gael golwg ar yr hen wreigan Siân Owen, Ty'n y Fawng yn ei siol.

Tydio'n rhyfedd mai atgofion am noson stormus yng nghesail Cwm Nantcol sy'n dod yn ôl i mi yma yn heulwen Cala Bona.

Dyna gau drws y Siambar am fis arall. Mi ga' i ddiogi rŵan a darllen dipyn cyn mynd am dro o gwmpas yr harbwr. Dew, mi gymra i wydriad bach o win coch, am wn i. Ble rois i'r botel 'na? O dyma hi. Damia, mae'n wag! M-e-e-i-r-a-a-a!

## Sefydlydd Clwb Eryri yn Ymddiswyddo

Deallir fod Rol Williams, Waunfawr, y gŵr a sefydlodd Clwb Eryri yn Nyffryn Peris yn 1955 wedi ymddiswyddo fel aelod o'r Clwb. Ef fu'n gyfrifol am alw cyfarfod cyhoeddus yn Ysgol Gynradd Llanrug ym 1955 i drafod y syniad o sefydlu clwb trafod o'r fath yn yr ardal. Gyda chydweithrediad y diweddar Tom Owen, Llanberis, llywydd cyntaf Clwb Eryri, cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn Llanberis yn 1955. Fe fu Rol Williams yn Ysgrifennydd y Clwb am 35 mlynedd ac ef oedd yr unig aelod gwreiddiol oedd ar ôl o'r deg ar hugain o wŷr y fro oedd yn aelodau y flwyddyn gyntaf, sef 1955-1956.

Deallir mai'r rheswm dros ei ymddiswyddiad oedd iddo anghytuno â'r modd y bwriadwyd dathlu hanner canmlwydd y Clwb yn y flwyddyn 2005.

**Cefnogwch  
ein  
Hysbysebwy**

## Dylan Griffith

**TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL**  
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

**Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac  
ymhellach i ffwrdd**

Gwasanaeth teimladwy,  
urddasol a phersonol.  
24 awr y dydd

Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**

Symudol: **07778 127394**

### HEFYD



### CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd *Rolls Royce*  
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac  
achlysuron arbennig eraill



## CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL  
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

**WAUNFAWR (01286) 650552**

## GORSAF BETROL



## BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

**Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo  
Cylchgronau • Papurau Newydd  
Cardiau Penblwydd • Wyau  
Nwyddau Groser • Melysion**

**TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!**

## Pryd i Bawb

*Buiffe blasus o safon  
at bob achlysur*

*Priodas*

*Parti*

*Te Angladdau*

*Cinio Busnes*

**CERID MACKINNON**

*Plas Tŷion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PQ*

**(01286) 673190**





## Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto



### Cystadleuaeth Gŵyl Ddewi y llythyren E yn unig!

Gofynnwyd i'r darllenwyr yn (1) restru yn y Gymraeg enwau adar sy'n dechrau hefo'r llythyren E, ac yn (2) gofynnwyd pa un o'r adar, oedd hefo E ar ddechrau'r enw, sy'n castellu?

#### A'r Atebion?

- (1) Tramor – Emiw, Estrys.
- (2) Adra – Eboles Wanwyn; Ehedydd/Etidd; Ehedydd Bach; Ehedydd Byrfys; Ehedydd Gopog; Ehedydd y Coed; Ehedydd Glan y môr; Ehedydd Llwyd/Esgusodyll; Ehedydd y Graig; Ehedydd y Traeth; Eos; Eryr Aur/Euraidd/Euraidd/Mclyn; Eryr Gynffonwen; Eryr Tinwyn; Eryr y dŵr/Eryr y M; Eurban; Eurbinc; Eurgeg/Euryn; Euryn Baltimore; Euryn yr Haf.
- (3) Yr Eryr sy'n castellu, a'r hyn a geir yn y Beibl yw *fel eryr yn castellu/cyffroi*\* ei nyth ac yn hofran uwch ei gywion, lledai ei adenydd a'u cymryd ato, a'u cludo ar ei esgyll.

(Llyfr Deuteronomium, Pennod 32, adnod 11)

\* Castellu yw'r hen air yn y Gymraeg am gyffroi, gwrychu,

neu ledu a sythu'r plu a'r adenydd. Gorfodid y cywion i adael y nyth, a dechrau hedfan.



#### A'r Enillwyr?

Y tro hwn yr enillydd, hefo rhestr dda dros ben yn cynnwys 11 enw, ydi Gwenllian Roberts, Weirglodd Goch, Raca, Penisarwaun. Felly'r wobwr gyntaf iddi hi, sef llyfr *Gloi'r Camera* y diweddar Ted Brezce Jones; a'r ail wobwr, sef albwm bychan sy'n cynnwys stampiau byd natur gwledydd eraill, i Lcslic Roberts, Clwt y bont (hefo tipyn llai o enwau, ond rhestr tra buddiol serch hynny.) Cawsant hefyd yr ateb cywir i'r cwestiwn pa aderyn sy'n castellu, sef yr eryr. Gwych iawn wir!

Llongyfarchiadau mawr, a diolch am gystadlu. Mae'r gwobrau wedi'rh gyrraedd, neu ar ddwad atat, a hynny hefo'r gloman gynta' (nid cryr sylwer!) y gallwn ei chanfod yma yn y Nyth yng Nglasgoed.

## Un Funud fach

### RHOI A DERBYN

Fedwrn i yn fy myw â'i glywed. Un o uwchswyddogion byddin neu lywodraeth Irac oedd y dyn, ac roedd o ar y teledu yn gynharach heddiw yn rhoi ei ymateb i ddigwyddiadau diwrnod cyntaf y rhyfel. Roeddwn yn ceisio gwrandao ar yr hyn oedd ganddo i'w ddweud. Gwadu fod yr ymosodiadau cynharaf wedi cael unrhyw effaith ar ei wlad oedd o wrth gwrs, ond fedwrn i ddim clywed digon o'i eiriau i ddeall beth yn union oedd o yn ei honni. Gwaetha'r modd bydd mwy na digon o gyfle eto i'w glywed ac i glywed am droeon y rhyfel y buom yn ei ofni ers misoedd.

Does dim byd yn bod ar ein teledu ni, a doedd dim gwall ar sain y rhaglen newyddion heddiw. Y rheswm syml pam na fedwrn glywed y llais oedd... Aled. Roedd Aled yn parhau pymtheg y dwsin, ac yn hawlio gwrandawriad i'w stori A phan fo plentyn dwyslwydd oed yn mynnu adrodd hanes Scoop a Bob y Buldar yn llwytho pasta sych i drelar Travis y tractor does gan ei dad fawr o obaith gwrandao ar filwr o wleidydd o Bagdad yn traethu.

Daeth yn rhyfel er gwaethaf holl ddadlau a phrotestio'r misoedd diwethaf. Ac un o ganlyniadau'r rhyfel hwn, fel

pob rhyfel arall, fydd amddifadu gormod o deuluoedd o swm plant. Erbyn diwedd y rhyfel faint o deuluoedd yn Irac fydd yn hiraethu am y dyddiau – cyn dyfod y bomiau – pan oedd swm chwarae a ffræo eu plant bach yn eu styrbio? Faint o deuluoedd ym Mhrydain ac yn America fydd yn galaru am na ddaw eu milwyr o blant adref i ddweud yr un gair wrthynt eto? Ac wrth i'r derfysgaeth greulon gynyddu yn sgil y rhyfel hwn, faint o deuluoedd ddaw i hiraethu am y dyddiau yr oedd plant bach ar yr aelwyd yn eu rhwystro rhag darllen y papur neu wyllo'r teledu neu roi'r byd yn ei le dros bryd o fwyd?

Bydd yna golledion. Bydd yna ddioddef. Bydd yna ladd. Mae pawb yn gwybod hynny, oherwydd dyna yw rhyfel. Ond gweddiwn y bydd cyn lleied â phosibl ohono. A gweddiwn y bydd pobl yn dod i weld nid yn unig peth mor erchyll yw rhyfel, ond peth mor erchyll yw'r pechod dynol sy'n creu'r amgylchiadau sy'n arwain at ryfel. Ac o'i weld, boed i bawb ohonom – yn Irac ac America a Phrydain a Ffrainc a'r byd i gyd – droi mewn edifeirwch am y pechodau hynny at y Duw graslon all faddau pob bai trwy ei Fab Iesu Grist.

JOHN PRITCHARD

**Gwyddom bod nifer o ddynion a merched Bro'r Eco wedi mynd i'r Gwlff yn ddiweddar. Gobeithiwn eu gweld yn ôl yn ddiogel yn fuan.**

**R.M. (DIC) PARRY**

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

**TAWELFA, PENISARWAUN**

Ffôn: (01286) 870846

**STEPHEN JONES**


+ Trefnwr Angladdau  
Llanberis ac Ardal yr Eco

**(01286) 870 870**

**(01286) 872 491**

**(07770) 265 976**

Cwmni Annibynnol Lleol  
Profiadol



**GWYNANT  
PIERCE**

Cynrychiol Coed:  
Gatiau, Ffensys ac ati  
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon  
**LLANRUG**

Ffôn: (01286) 650349  
(0589) 899901

Brian a Rita  
Henderson

**SIOP Y PENTREF**

WAUNFAWR

Ffôn: 650589

- Holl docynnau'r Loteri Genedlaethol
- Cyflenwyr bwyd anifeiliaid – 'bulk' a rhydd – v rhataf yn lleoli
- Nwyddau groser, alcohol, cardiau MANWEB
- 'Paypoint' ar gyfer talu bob math o filiau



# CHWILOTA

## Chwilio am Deuluoedd



Mae ymholiadau am wybodaeth ynglŷn â theuluoedd a fu'n byw yn yr ardal yn dod i law yn weddol gyson. Mae'n rhyfeddol faint o ymateb sydd i lawer o'r ceisiadau a fu yn y gorffennol; rhai ohonynt o wledydd tramor. Daeth yr un diweddaraf o Seland Newydd, ac efallai i rai ohonoch sydd hefyd yn derbyn y *Caernarfon and Denbigh Herald* weld llythyr yn gynharach y mis hwn gyda'r un cais.

Mae Peter a Jillian Williams o Hawera, Seland Newydd yn chwilio am hynafiaid a ddaeth yn wreiddiol o Llanrug, ac a fu'n byw yn Llanddeiniolen a Llanrug cyn symud i Lansilin ger Croesoswallt. Yr hyn sy'n gwneud y cais hwn yn ddiddorol yw'r ffaith i un o'r teulu gael ei glwyfo yn namwain y powdwr oel yng Nghwm y Glo.

Ganwyd Richard Williams yn Llanrug. Roedd iddynt o leiaf saith o blant: Hugh Solomon Williams a aned yn Llanddeiniolen yn 1857, William (g. 1861), Robert (g. 1868), Ellen (g. 1871), Richard (g. 1873), Thomas Solomon (g. 1875) a David Solomon (g. 1882), y chwe olaf yn Llanrug.

Roedd Hugh Solomon, y mab hynaf, yn gweithio yn Chwael Dinorwig, a phan ffrwydrodd y drol oedd yn cario powdwr oel (nitroglycerine) ger Cors y Llwyncoed ym mis Gorffennaf 1869, cafodd ei anafu yn ei gocs. Bachgen ifanc deuddeg oed oedd ar y pryd. Bu'n orweddog yn ei wely am beth amser o ganlyniad i'r ddamwain, a bu'n astudio dros y cyfnod hwnnw. Y canlyniad fu iddo benderfynu mynd yn athro ysgol, a chafodd swydd yn Llansilin ger Croesoswallt, ble bu'n brifathro. Bu farw yn 1921.

Yn ôl cyfrifiad 1901 roedd cyfnither iddo, Mary Griffiths (26 oed), yn byw yn Llansilin hefyd. Fe'i ganed hithau yn Llanrug. Ymfudodd tri o blant Hugh Solomon i Seland Newydd. Mae'r teulu yn Seland Newydd yn awyddus i ddarganfod a oes disgynyddion o frodyr a chwiorydd Hugh Solomon yn parhau i fyw yn ardal yr 'Eco'.

Os oes unrhyw un o'r darllenwyr â gwybodaeth, yna cysylltwch.

\*\*\*

Daw'r ail gais o Rhuthun, ond mae'n ymwneud â theulu a ymfudodd i'r America. Mae Iwan Hughes o'r Rhewl ger Rhuthun yn chwilio am wybodaeth ynglŷn â William T. Williams a oedd 'yn enedigol o yn agos i Lanrug'. Bu farw yn Fair Haven, Vermont ar Awst 24ain 1885 yn 63 oed (5 mis a deuddeg diwrnod). Mae'r manylion hyn yn golygu iddo

gael ei eni yn 1822. Bu farw o glefyd y gwaed. Yn ôl cofiad iddo yn *Y Drych*, fe'i hadwaenid fel Willam K. Thomas, ac yr oedd yn briod ag Ellen Hughes o Fethesda.

Mae Iwan Hughes hefyd yn chwilio am ŵr o'r enw Joseph Williams a fu farw yn America ar Ragfyr 29ain 1910, o'r Bright's Disease. Yr oedd hwn yn barddoni, ac ymddengys ei waith barddonol mewn sawl copi o *Y Drych*.

Yr oedd ganddo alarnad am fab a gollwyd mewn rhyfel yn Cwba yn 1898. Y gred yw ei fod yn frodor o Lanrug; yn benodol o ardal y Bryngwyn a Than y Coed. Ef yw awdur cerdd a ysgrifennwyd i 'Hen Gapel Bach y Bryngwyn, Llanrug'. Fe'i hysgrifennwyd yn Granville, Efrog Newydd, ond nid oes dyddiad iddi yn anffodus. Er hynny, mae'r disgrifiad yn y gerdd yn awgrymu mai sôn y mae am hen gapel y Bryngwyn, yr un oedd wedi ei leoli yn Nghan y Coed (rhwng mynedfa Pant Bryngwyn a mynedfa Tai Tan y Coed). Mae felly yn dyddio'r gerdd i hanner olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Sylwch ei fod yn sôn am lawr pridd a thair ffenestr i'r capel.

### Hen Gapel Bach y Bryngwyn

Hen gapel bach y Bryngwyn,  
Adgofio 'rwyf inni,  
Am adeg ddifyr plentyn  
A dreuliais ynot ti;  
Pa le mae yr hen dadau  
Dirodres y pryd hyn  
Pa le mae yr Amenau  
Maent oll tu draw i'r glyn.

Hen gapel bach y Bryngwyn  
Diaddurn oeddit ti;  
Y pridd oedd dy lawrleni,  
Os da y cofiaf fi;  
Tair ffenestr fach oedd ynddo.  
Dim llawer mwy na'm llaw,  
Canwyllau i'w oleuo  
I'm cof mor ryfedd ddaw.

Hen gapel bach y Bryngwyn  
Rhyfeddaf dan y nef  
Llyfr Hymnau nid oedd yno  
'Roedd Beibl ynddo ef;  
Mi glywais yno ganu  
Nes synu lawer un,  
Emynau bendigedig  
Nes nefoleiddio dyn.

Hen gapelbach y Bryngwyn  
Yr eglwys oedd yn wan  
Fregthwyr gorcu Cymru  
Fu yn cysegru'r fan;  
Diaddurn oedd a dinod  
Mi glywais lawer tro  
Well gan bregethwyr yno  
Nag unman yn y fro.


Hen gapel bach y Bryngwyn  
Mi garwn ddod am dro  
I weled dy hen furiau  
Maent heddyw yn fy ngho;  
Law amser er's blynyddau  
Dy ddwrws a wnaeth ei gloi  
Y doniau da a'r canu,  
Yn fud maent wedi troi!

Hen gapel bach y Bryngwyn  
Meddyliais y pryd hyn  
Nad oedd un tebyg iddo  
Er chwilio bro a bryn;  
Cyfnewid y mae amser,  
Dull newydd heddyw sydd  
O ganu a phregethu  
Newydd-deb eto rydd.

Jos. W. Williams

\*\*\*

Mae'r trydydd cais am wybodaeth deuluol yn fwy anarferol, a hynny oherwydd mai prin iawn yw'r ffeithiau sydd ar gael. Dim ond disgrifiad a chof plentyn, ond mae'n dyddio'r wybodaeth i gyfnod rhwng y ddau ryfel byd. Roedd aelod o'r teulu sydd yn chwilio am y wybodaeth yn cofio dod i ardal y Ceunant yn blentyn ifanc. Roedd merch y teulu a fyddai'n estyn croeso iddynt yn athrawes, ac yn reidio moto beic. Credir mai ei henw oedd Kate neu Katie Jones. A dyna'r cyfan o wybodaeth sydd ar gael.



Ar yr ochr arall llun o Lyn Ogwen. Mrs E. Hume, Llanberis, N. Wales.

### Mwy o Gardiau Post Teulu Hume

Yn dilyn y llun fis diwethaf o garden wedi ei hanfon i Lanberis o Galiffornia, aeth Rhian Williams o Riwbeina, Caerdydd, ati i chwilo am fwy o gardiau post yn ymwneud â theulu'r Hume. Daeth pump arall i'r golwg. Mae tri ohonynt wedi eu cyfeirio i W. J. Hume ar long y 'Dunfermline' yn San Francisco. Mae'n amlwg felly mai gweithio ar y môr yr oedd y pentenlu - yn gapten llong efallai, ac yn gweithio i Gwmni Meyer, San Francisco. 'Etta' sy'n anfon dau o'r cardiau, Mrs Hume yn anfon un arall, ac un arall gan Lizzie. Prin iawn yw'r cyfarchion ar unrhyw un



Ar yr ochr arall mae llun o'r Wyddfa o dan eira. 'Snowdon Summit' Best wishes from Etta.

# SPAR

## Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd  
o'r wythnos at eich  
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am  
ddanfôn archeb i'ch cartref  
yn ardal Llanrug

## IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd  
DEINIOLLEN  
(01286) 870484


► Bysiau o 12 i 53 sedd

► Teithiau Lleol a Thramor

► Gwaith Contract

► Telerau arbennig i  
bensïynwyr, myfyrwyr a  
phlant ysgol

Mae'n rhaid i mi siarad  
hefo rhywun



Y SAMARIAID  
Bangor  
(01248) 354646

ohonynt. Anfonwyd un o'r cardiau i'r Ffindir (sut ar wyneb daear y daeth i feddiant mam Rhian Williams yn Llanberis?) ac un arall i Glasgow House, Llanberis. A dyna ddiwedd (efallai) ar saga'r teulu arbennig hwn.



## Colli Geiriau Llafar

Gan Ieuan Evans o Borthaethwy y cafwyd rhestr o enwau yn ymwneud â Llyn Bogelyn ac afon Saint yng nghyffiniau Cwm y Glo. Mae'n nodi'r 'Marddwr' ger y Stabla. Dŵr llonydd yw hwn wrth gwrs, gan nad oes fawr o rediad yn y tir yma, a'r afon yn ymddangos fel petae'n llifo'n swrth. Dyna roes iddi'r enw 'marw-ddŵr', sef 'marddwr'.

Yr Aber (gerllaw ysgol Cwm y Glo): Roedd yno ddwy lôn ers talwm, Lôn Lechi a Lôn Gychod, a'r enwau'n ein hatgoffa o'r ffaith mai porthladd pwysig a phrysur oedd yma cyn dyfodiad y rheilffyrdd. Dywed Ieuan Evans fod y ddau safle yn brysur sychu

i fyny dros hanner can mlynedd yn ôl. Yma hefyd roedd Pont'r Aber, a rôl fynediad i'r cei a'r afon. Mae'n rhaid fod pwysigrwydd i'r safle nes gorfodi'r cwmni rheilffyrdd i adeiladu pont pan osodwyd y rheilffordd yma yn ystod 1860'au.

Rhydiâu/Rhyda: roedd y rhain rhwng gwaelod gallt y Fricsan a Phont Penllyn, gyda Rhyd bach rhwng Pwll P'owdwr Oel a'r bont.

Rhwng y ddwy ryd roedd dŵr dwfn a elwid yn 'festion'. Tybed a ddaw o'r gair 'beisdn'?

Yr oedd hefyd amryw o enwau gwahanol am y pyllau dŵr rhwng y rheilffordd a'r afon. Dyma'r rhai a nodir ganddo: Pwll Lilis, Pwll Cathod a Pwll Cwn.

Roedd adfeilion ger Clogwyn Stesion (nepell o'r Fricsan) yn cael eu hadnabod fel Aber Bella'. Efallai mai aber yr Afon Goch oedd yma ar un cyfnod.

Clogwyn Cannons oedd enw hogia Cwm am Graig Carreg y Fran, a Dwnjwn ar y clogwyn a ddisgynnai ohoni i gefn garej bresennol Cwm y Glo.

Dyna gychwyn casgliad o ardal Cwm y Glo. Beth am leoli'r pyllau ar fap? Tybed ydi pysgotwyr heddiw yn adnabod y rhannau hyn o'r afon gyda'r un enwau?



Adran yr Urdd, Caeathro.

Anfonwyd y llun gan Mrs Mair Jones, Llety'r Wennol, Caeathro. Mae'n credu i'r llun gael ei dynnu rywdro yn ystod y 1930'au pan enillodd Adran Caeathro darian yr Urdd mewn cystadlaethau eisteddfodol. Mae'r plant wedi ymgynnull ar fuarth yr ysgol, ac y mae'n syndod meddwl fod adran mor fechan (tua deg ar hugain o blant) wedi ennill cynifer o

wobrau. Sylwch ar yr holl rubannau sydd wedi eu gosod ar y faner yn y cefndir.

Mae mam Mrs Jones, y ddiweddar Mrs C. Hughes, Tŷ Gwyn, Caeathro, yn y llun, a gwyddom fod eraill yn y llun yn parhau i fyw yn yr ardal. Oes rhywun all enwi pawb yn y llun? Ac am beth yn union yr enillwyd yr holl wobrau?

Rhwng y gân a'r lluniau aeth y golofn yn llond tudalen eto'r mis hwn a bu'n rhaid gohirio cynnwys cyfraniadau Mr Owen Jones, Llangefni a Mrs Helen Francis, Caer. Gan fod y ddau yn sôn am ddau begwn gwahanol ym mro'r 'Eco', fe'i gadawn tan y mis nesaf er mwyn cadw rhyw gymaint o gydbwysedd yn y sylw a roir i wahanol rannau o'r fro. Cafodd Caeathro, Llanrug, Cwm y Glo a

Llanberis rywfaint o sylw'r mis hwn, felly, bydd y pwyslais ar Bontrug, Y Clegir, Rhiwlas a Deiniolen y mis nesaf. Ac os oes gan unrhyw un ohonoch sylw neu gais i'w wneud ar unrhyw agwedd o hanes lleol bro'r 'Eco' yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Lanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515)

Peidiwch a rhoi'r ffidil yn y to!  
dewch i

## GLWB FFIDIL CWM-Y-GLO

Gwersi ffidil gwerinol ar gyfer  
dechreuwyd gyda  
Cass Meurig a Nial Cain

Ysgol Cwm-y-glo  
Nosweithiau Mawrth am 5.45-6.45  
o Ebrill 8 ymlaen.

Does dim angen unrhyw brofiad  
cerddorol na gallu i ddarllen  
cerddoriaeth.

Offerynnau ar gael i'w benthyg.  
Am fanylion ffoniwch (01286) 871042

Croeso cynnes i oedolion ac i blant!

GWASANAETH LLEOL AR GYFER  
PARTÏON • PRIODASAU  
PEN-BLWYDD  
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

## RHOSTIO MOCHYN AR GYFER POB ACHLYSUR

\* Cig o ffermydd lleol \* Partïon  
rhwng 40 a 400!

\* Gyda saws afal a stwffin mewn  
rholiau

\* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!  
Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON  
LLANRUG

Y DYNN CIG ar 675190 / 673188

## Cydnabod Ymroddiad

Mewn cyfarfod arbennig gan Ymddiriedolaeth Ysbyty Gwynedd i Wasanaeth Gwirfoddol Brenhinol y Merched (W.R.V.S.) ar Chwefror 25 i gydnabod gwasanaeth clodwiw nifer o'r gwirfoddolwyr, cafodd Marion Jones, Dinorwig gryn sioc pan dderbyniodd fedal i ddathlu 19 mlynedd o ymroddiad i'r mudiad.

Dechreuodd Marion helpu yn y siop yn yr Ysbyty yn Hydref 1984 pan agorwyd Ysbyty Gwynedd, gan gymeryd cyfrifoldeb am wneud y llyfrau a'r TAW yn 1987, cyn symud i helpu yn y caffi yn 1993. Mae'r W.R.V.S. yn gallu trosglwyddo elw o tros £100,000 yn flynyddol i'r Ysbyty trwy ymroddiad cyfeillion fel Marion i wirfoddoli'n rheolaidd i'r gwaith.

Llongyfarchiadau cynnes i Marion oddi wrth ei ffrindiau W.R.V.S. o Lanfairfechan.

## DRAENOG PWYLL PIA HI

Glwsoch chi hanes y pêl-droediwr meistrol GAR a aETH am wylia BACH i'r hen ddinas fawr ddrwg? Ar ôl cyrraedd penderfynodd fynd i chwilio am bwl nofio'r gwesty crand. Pam lai, a fonta yn nofiwr mor wych. Lapidodd ei hun mewn tyweli. Dychmygwch y fath sioc ar ei wyneb pan gafaodd ar ddeall nad oedd pwl nofio yn y gwesty! Miglodd yn ôl i'w ystafell yn gyflymach nag y gwelwyd ef erioed ar gaeau Ffordd Padarn ac Eithin Duon. Cyngor bach gan y Draenog - 'pwyll pia hi - pam na fasa ti wedi deud wrth bawb dy fod yn fynach o Tibet ac yn fets pennaf hefo'r Dalai Lama? Mi fasa pawb yn Amsterdam wedi dy goelio!

## Wavell Roberts

CIGYDD

London House  
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574  
PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

## SNOWDONIA PARC WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant  
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol  
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: 650218

I drin a thrwsio  
pob math o  
beiriannau gwnïo

## MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr  
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau  
ac ati mewn stoc



# RYGARUG



Sian Wheway, Cadeirydd Rygarug, yn cyflwyno medal i Daniel Taylor am ei gyfraniad i'r sioe Digon Teg!

## Eisteddfod yr Urdd

Am y tro cyntaf erioed bu Rygarug yn cystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd. Yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon ar nos Iau y 6ed o Fawrth agorwyd y cystadlu yn yr Eisteddfod 'Symudol' gan bedwarawd Rygarug - Iola, Leah, Jade a Katie. Roedd yna bedwar tîm i gyd yn cystadlu a daeth tîm Rygarug yn ail.

Llongyfarchiadau mawr iddynt am eu gwaith caled a diolch i Elena Hemingsley am eu hyfforddi ac i mam am wneud y gwisgoedd ardderchog.



Elena, etc gyda Glenys Williams (Porthmadog) a ddaeth i'r Sefydliad Coffa, Llanrug nos Fercher 12fed o Fawrth i roi blas ar Ddawnsio Bol/Belly Dancing.



Iola Thorman-Jones, Leah Anne Williams, Katie Pritchard a Jade Evans gyda'u hyfforddwraig, Elena Hemingsley.



Audra Roberts, Trefnydd Rygarug, yn tynnu'r Raffl yn Ysgol Gwaun Gynfi hefo aelodau: Daniel, Cadi, Peri a Liam.

## Enillwyr y Raffl

- 1: Dwy botel o win (gwyn a coch): Eiranwen Whiteside Thomas, Llanrug
- 2: Potel o Win Rose: Janice Griffith, Llanrug
- 3: Potel o Win Coch: Valerie Williams, Caernarfon

## Trip Aml-gyfrwng i Uned 5 a Barcud

Ar nos Fawrth 11eg o Fawrth aeth un deg chwech o aelodau y gwersi Aml-gyfrwng mewn bws mini i ymweld â Stiwdio Uned 5 a Stiwdio Barcud.

Yn Uned 5 cawsant groeso cynnes iawn gan dri o'r cyflwynwr ac roedd pawb wrth eu boddau'n cael cyfarfod Tomos, ci bach King Charles, Spaniel sy'n ymddangos yn gyson ar y rhaglen. Cafodd y criw a'u tiwtoriaid, Mr Dafydd Roberts a Mr Robin Williams ymweld â'r ystafelloedd ymlacio, coluro a gwisgoedd a chael cyfle i weld eu hunain ar y sgrin fach. Cafodd pawb becyn Uned 5 i ddod adref efo fo.

Diolch yn fawr iawn i'r criw yn Uned 5 am y croeso twymgalon.

Yn Barcud cafodd y criw ymweld a'r adran ôl-gynhyrchu a gweld gwaith golygu a graffeg yn mynd yn ei flaen. Diolch i Marc a Nevil am eu hamser.

Mae ymweliadau o'r fath yn cryfhau ac yn ehangu'r gwaith gwych sy'n cael ei wneud gan y ddau ddosbarth aml-gyfrwng yn y sesiynau wythnosol. Bwriedir cynnal o leiaf un ymweliad arall y tymor hwn, ac yn yr haf byddwn yn ymweld â set Rownd a Rownd ym Mhorthaethwy.

Os oes gennych chi neu'ch plentyn syniad am weithgaredd gwahanol / difyr / hwyliog i Rygarug byddem wrth ein bodd yn clywed gennych - neu - os hoffech ymuno â'r sesiynau Aml-gyfrwng, Dawns, Canu, Coluro neu Drama: ffoniwch 01286 675766.



**CASTELL BOWNSIO  
AR GYFER  
POB ACHLYSUR**

**Down â fo atoch  
a'i nôl wedyn**

**Ffôn: 871782**

**GWYN JONES**

**FFENESTRI ERYRI  
GARTH ISAF, LLANRUG**

**(01286) 650764**

neu

**W. G. Roberts (Wil Korea)  
676741**



**FFENESTRI**

**DRYSAU**

**DRYSAU PATIO**

**PORCHES**

**BYRDDAU FFASIA**

**CLADIO**

**CONSERFATERIS**

**BLINYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES**





## LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

**CANIADAETH Y CYSEGR.** Bydd rhaglen radio 'Caniadaeth y Cysegr' yn cael ei recordio yng Nghapel Jerusalem, Pentre Castell, Llanberis, nos Lun, 31 Mawrth am 18.45 yr hwyr.

Mae bws KMP yn cychwyn o ddechrau Stryd y Ffynnon am 18.30 yr hwyr ac yn codi i fyny wrth Siop y Fferyllfa, o flaen y Feddygfa, Rheilffordd yr Wyddfa ac yna i Maes Derlwyn.

Croeso cynnes i bawb a diolch am eich cefnogaeth.

**LLEISIAU LLIWEDD.** Bu Lleisiau Lliwedd yn cynnal adloniant yng Nghapel Jerusalem, Bethesda yr wythnos ddiwethaf a chodwyd casgliad o £70.00 at elusen y damwain erchyll a ddigwyddodd i blant bach yn Sir Fôn.

Bydd Lleisiau Lliwedd a Chôr Dyffryn Peris yn cynnal cyngerdd ar Fawrth 28 yng Ngwesty Dolbadarn. Pris y tocynnau fydd £3 a bydd yr arian yn mynd at gronfa Ysgol Feithrin Llanberis.

**DYMUNA** Lynda, Brian, Christine a Terry ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu colled o golli mam, nain a hen nain annwyl iawn, sef Bet Hughes, 18 Snowdon Street, Llanberis. Diolch yn arbennig i bawb ym Meddygfa Llanberis ac i Gwynfor a Myrddin, Trefnwyr Angladd.

**DYMUNA** Mrs Jean Roberts, 5 Dol Eilian, Llanberis ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am y llu cardiau, anrhegion a blodau a dderbyniwyd ar achlysur ei phen-blwydd yn drigain oed.

**LLONGYFARCHIADAU** mawr i Siân a Maldwyn Morris ar enedigaeth eu merch fach, Elliw.

**DYMUNA** Siân a Maldwyn ddiolch am y rhoddion, y cardiau a'r galwadau ffôn a gawsant ar achlysur genedigaeth eu merch, Elliw.

**CRONFA ELUSENNOL.** Cynhelir Bore Coffi yn y Bistro dydd Gwener, Mawrth 7 o 10.30 hyd at hanner dydd, or budd Hoepie Hafan Menai.

**UNDEB Y MAMAU.** Prawn dydd Mawrth cynhaliwyd y cyfarfod misol (Mawrth 11) o'r gangen yn y

Rheithordy. Ein Rheithor, y Parch Philip Hughes, gymerodd y gweddïau agoriadol.

Etholwyd swyddogion am y flwyddyn fel a ganlyn: Aelod Cofrestru - Mrs Betty Humphreys; Ysg/Trysoryddes - Mrs Audrey Evans. Yn anffodus ymddiswyddodd Mrs Nan Owen fel Trysoryddes.

Dangoswyd parch i ddwy aelod ffyddlon, sef Mrs Clara Roberts a Mrs Bet Hughes a fu farw yn ystod yr wythnosau diwethaf, wrth sefyll am funud o goffadwriaeth.

Tynnwyd rhaglen gyffrous ar gyfer y misoedd nesaf. Yn ymorol am y baned yr oedd Mrs Betty Humphreys a Mrs Audrey Evans.

Diolchwyd iddynt hwy ac i'r swyddogion am eu gwaith diwyd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio gan Miss Glenys Parry. Diolchwyd hefyd i'r Rheithor a Sandra am eu parodrwydd i agor eu cartref inni unwaith eto. Enillydd y raffl oedd Mrs Nellie Morris. Diweddwyr trwy adrodd Y Gras.

**CYMANFA'R ANNIBYNWYR, CYLCH DEINIOLLEN A CHWM-Y-GLO.** Cynhelir y Gymanfa eleni yng Nghapel Bosra, Penisarwaun bnawn Sul, Ebrill 6 am 2 o'r gloch. Arweinydd y Gân fydd John Eifion. Gwneir casgliad tuag at y Gymanfa.

Bydd y bws yn cychwyn o  
Llanberis am 1.15 pm;  
Cwm-y-glo am 1.25pm;  
Deiniol am 1.35pm.

Gofynnir yn garedig am dâl o £1 yr oedolyn. Ertynnir am eich presenoldeb.

Bydd iard yr Ysgol Gymuned ar gael i barcio ceir.

**DYMUNA** teulu y ddiweddar Rhona Thomas, 22 Stryd Newton, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt ar golli gwraig, mam a nain. Diolch hefyd yn arbennig i staff meddygfa Llanberis a Ward Conwy, Ysbyty Gwynedd am eu caredigrwydd yn ysgod y misoedd o salwch.

Cefnogwch  
ein  
Hysbysebwy

## Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Cyfarfu'r Cyngor yng Nghanolfan Penisa'rwaun nos Fawrth y 4ydd o Fawrth, 'roedd deg Cynghorydd yn bresennol a derbyniwyd pum ymddiheuriad. Llywyddwyd gan y Cadeirydd Richard Llwyd Jones, ef hefyd offrymodd y weddi ddechreuol.

Hysbyswyd y Cyngor bod y Cynghorydd Len Jones wedi colli ei fam yng nghyfraith. Danfonir gair o gydymdeimlad atynt fel teulu.

Cydymdeimlodd y Cadeirydd, ar ran y Cyngor, â'r Clerc o golli ei fam ddiwedd Ionawr.

**Cofnodion Ionawr:** Derbyniwyd fel cofnodion cywir.

**Materion o'r cofnodion:**

Cofnodwyd galwad ffôn oddi wrth Mr Windsor Williams yn diolch am y gwaith a wnaed i ail wynebu'r llwybr y tu cefn i **Rês Marian**.

Atgoffwyd yr aelodau bod angen rhestr o adeiladau gwâg (*Atkins*). **Amgylchedd Gwynedd** - Ateb eu bod wedi cysylltu â'r Adran Tai ynglŷn â'r papurau a luchiwyd i **Afon Caledffwrdd**.

**Edison** - Eu cyfreithwyr yn dal i drafod trosglwyddo cyfrifoldeb y **maes parcio Marchlyn** i'r Cyngor Sir.

Grant Gwynedd ar gyfer cynnal llwybrau cyhoeddus. Derbynnir £960 cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Atebion Gwynedd i adroddiadau'r Cyngor ar lwybrau a ffyrdd:

**Gallt y Foel** - 'nid wyf ar hyn o bryd yn ymwybodol o unrhyw fylchau sydd yn creu perygl...'

Mae'r Cyngor wedi cwyno droeon am gyflwr difrifol y waliau ar hyd yr uchod gan ofyn i'r Adran Briffyrdd eu hatgyweiro neu eu cynnwys yn y **Cynllun Walio**. Tynnwyd sylw'r Adran atynt hefyd, yn anibynnol, gan y Cynghorydd Mrs Pat Larsen. Penderfynwyd danfon llythyr eto at Gyngor Gwynedd gan yr ymddengys na fu neb yno'n archwilio a hefyd cyfeirio at y gor-yrdd sy'n digwydd ers ail wynebu'r ffordd. Amlygir y sefyllfa eto gan y Cynghorydd Larsen.

**Llwybr 113, Bethel** - Mae'r goeden oedd wedi disgyn ger Bryn Pistyll wedi ei chlirio.

**Llwybr 126, Zig Zag, Dinorwig** - Mae'r gwiriad a wnaed yn y gwaelod rai blynyddoedd yn ôl yn wiriad parhaol oherwydd natur ansefydlog y tomennydd chwarc.

**Llwybr 135, Bethel** - Mae Pont Charlie wedi ei hatgyweirio a'r llwybr wedi ei ail agor.

**Ceisiadau am gymorth ariannol.**

Ysgol Feithrin Rhiwlas. Ystyriwyd y cais yma oherwydd

bod mudiadau meithrin eraill y gymuned wedi eu cefnogi. Gellid gweld bod y taliadau'n fwy na'r derbyniadau a phenderfynwyd cyfrannu £150. Penderfynwyd peidio ystyried cyfrannu at y canlynol:

*Cyngor ar Bopeth (CAB)*

*Cwmni'r Frân Wen*

*Cymdeithas Spina Bifida a Hydrocephalus*

*Y Groes Goch Brydeinig*

*Cynllun Cynnal Dioddefwyr*

*Môn/Gwynedd*

*Ambiwylans Awyry Cymru*

**Barics, Dinorwig.** Cyflwynwyd llythyr Mr Graham Ford-Kyte, Hafodty yn dweud bod *Rêfs* yn parhau i gael eu cynnal yno yn yr haf. Danfonwyd yr adroddiad i *Edison*, perchnogion y safle a chafwyd sicrhaf y bydd eu swyddogion diogelwch yn barod i ymateb, gyda chydweithrediad yr Heddlu, os bydd rhywrai'n trebasu ar eu tir.

**Deddf Trwyddedau Adloniant**

**Cyhoeddus.** Derbyniwyd rhestr Gwynedd o'r trwyddedau presennol yn y gymuned sef: Neuadd Goffa, Bethel.

Gors Bach, Llanddeiniolen.

Y Bedol, Bethel.

Ni fydd gwrthwynebiad i adnewyddu'r trwyddedau yma.

**Swyddfa Bost, Penisa'rwaun.**

Cyflwynwyd llythyrau Mr John Emlyn Hughes, Rhcolwr Trosglwyddiadau Gwledig, Swyddfa'r Pôst a dadl y Cynghorydd Phyllis Ellis nad oes cludiant cyhoeddus bob awr i Swyddfeydd Brynrefail a Chwm y Glo, fel y tybia Mr Hughes. Adroddodd y Cynghorydd Phyllis Ellis a'r Cynghorydd Pat Larsen ar eu hymgyrch i geisio am adeilad ac ymgeisydd am y swydd. Ysgrifennodd Mr Dafydd Wigley at *Beresford Adams* i ofyn a oes modd hysbysbu'r adeilad fel Swyddfa Bost neu i ofyn i ddarpar brynwyr a oes ganddynt ddiddordeb yn ei redeg fel Swyddfa Bost.

**Gohebiaeth Mr Dafydd Wigley o ganlyniad i Gyfarfod Ionawr**

**Datgan Buddiant** - Cysylltodd â Mr Lyn Llewelyn, Cyfarwyddwr CCBTC.

**Ffiniau Ardal y Llechen.** Ateb iddo oddi wrth *Adran Cynllunio a Datblygu Economaidd Gwynedd*

- Rhoddir cefndir manwl i'r ffiniau a'r prosiectau a wnaed ag arian o gronfa 'Her Cyfalaf Cymru'r Swyddfa Gymreig 1998'. Mae'r adroddiad yn rhyfaith i'w gynnwys yma yn ei gyfarwydd, gellir cael copiau gan y cler.

**Tomenni Gwastraff Llechi yn y Gogledd.** Ateb oddi wrth Sue Essex. AC. 'Mae polisi'r cynulliad yn argymhell defnyddio gwastraff llechi fel

(Parhad ar dudalen 15)

## R. L. DAVIES

Goed Bolyn Mawr, Bethel

JCB Fastracs a trailers 16 tonnall  
diggers bychain ac excavators 360° newydd  
a llawer mwy



- ar gyfer llogi peiriannau
- tyllu footings
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd

Ffoniwch am fanylion

(01248) 671300

neu (07775) 638620



# Ysgol Brynrefail



## Chwaraeon Brynrefs

Bu tim dan 17 yr Ysgol yn chwarae pêl-droed yn gêm go-gyn-derfynol Cwpan Cymru, i ffwrdd yn Ysgol Uwchradd Penarlâg. Fel pob gêm yn y gwpan hon doedd hi ddim yn mynd i fod yn un hawdd i'w hennill. Ond gyda'r talent sy'n amlwg yn y tim yma, ac sydd wedi cael ei ddangos yn y rowndiau cynt, erbyn y diwedd roedd hi'n edrych fel gêm

ymarfer.

Carl Griffiths, sydd wedi cael tymor da iawn i'w ysgol ac i'w dim lleol, yn rhwydo deirgwaith i gael sgôr terfynol da iawn o dair gôl i ddim. Nawr mae tim arall o'r Gogledd yn eu disgwyl yn y rownd nesaf, sef y rownd gyn-derfynol. Pob lwc iddynt wrth geisio cyrraedd diwedd y daith (nid fod arnynt angen lwc!!)

Gan Geraint Iwan

## Trawsgwlad

Bob blwyddyn mae disgyblion yr ysgol yn cymryd rhan yn y cystadlaethau traws-gwlad sy'n cael eu cynnal yn Nglynllifon ac, er iddynt wneud yn dda, nid ydynt yn gwneud ddigon da i fynd i'r ras derfynol Cymru.

Ond y flwyddyn yma teithiodd Carl Griffiths o flwyddyn unarddeg i Aberhonddu i'r ras derfynol ble daeth yn bedwerydd-ar-bymtheg drwy Gymru gyfan.

Roedd Sarah Perrin a Nikki Hill yno hefyd yn rhedeg ar ran y merched, ac fe ddaethant hwythau yn 44 a 45 allan o gant yn ci cystadlaethau hwythau, sydd hefyd yn dda iawn. Ond mae'n rhaid dweud mai Carl a 'redodd i ffwrdd gyda hi!'

Gan Geraint Iwan

## Pel-Fasged

Ers apwyntiad Mr. Phil Holland i'r adran Ymarfer Corff flynyddoedd yn ôl, mae timau pêl-fasged yr ysgol wedi gwella yn anhygoel. Mae timau pob blwyddyn yn gwneud yn anhygoel o dda ymhob cystadleuaeth. Ond yn flynyddol hefyd mae tim cryf iawn o Gaergybi (hen ysgol dysgu Mr. Holland) yn ein rhwystro rhag cyrraedd y brig. Ond eleni daeth tim Blwyddyn 8 yr ysgol yn fuddugol yng Nghystadleuaeth derfynol Eryri. Daeth tim 'B' yr ysgol yn bedwerydd hefyd yn yr un gystadlaeth. Felly mae dyfodol disglair i'r gêm yn yr ysgol ar ôl trechu'r hen elyn o'r diwedd.

Gan Geraint Iwan

## Diwrnod y Llyfr

Ar Fawrth 6 dathlwyd Diwrnod Cenedlaethol y Llyfr, ac i gyd-fynd â hyn, cynhaliwyd cystadleuaeth fawr i ddisgyblion yn yr ysgol. Eu tasg oedd datrys y pŵs a chanfod enw awdur enwog. Rhowch gynnig arni!!

Mae llythyren gyntaf pob ateb yn creu anagram o enw awdur enwog.

Llyfr am chwarelwr sy'n symud o'r Gogledd i'r De.

Cyfes Angharad Tomos i blant. Llyfr T. Llew Jones, '----- Lladron'.

Nid breichled yw teitl y llyfr ond 'Y -----'.

Llyfr am dollborth, '-- Noson Dywyll.'



--- Arwr yr Eira?

Llyfr am ddillad isaf merched? Awdur 'Cysgod y Cryman.'

Enillwyr y gystadleuaeth oedd Gwenonwy Alun o flwyddyn 9 a Catrin Parry o flwyddyn 10. Derbyniasant wobwr o docyn llyfr gwerth £10 yr un.

Cewch ateb y pos yn y rhifyn nesaf!!

gan Geraint Iwan  
a Gethin Pritchard

## Trafod Addysg Ar y Radio

Dydd Mawrth yr llog aeth disgyblion o'r chweched dosbarth i Ysgol Dyffryn Nantlle i gymryd rhan mewn trafodaeth ar Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd cynrychiolwyr o nifer o ysgolion o'r ardal yn bresennol yn ogystal ag o Gyngor Gwynedd ac o Undeb Myfyrwyr Colegau Bangor.

Sulwyn Thomas oedd yn cyflwyno'r drafodaeth, a oedd

yn cael ei recordio a'i darlledu ar Radio Cymru.

Aeth pedwar o'r ysgol i gymryd rhan, o flwyddyn tri ar ddeg, Ffion Owen a Dafydd Pritchard ac o flwyddyn deuddeg, Ffion Williams a Lois Hughes. Roedd y pedwar o dan oruchwyliaeth Mrs Lowri Roberts o'r adran Gymraeg.

Meddai Ffion Williams, 'Roedd yn drafodaeth ddiddorol iawn am addysg yng Nghymru ac roeddwn yn falch iawn o gael cyfrannu.'



## Dawnsio Disgo'r Urdd

Grŵp dawnzio disgo'r ysgol a ddaeth yn drydydd yn Eisteddfod Gylch yr Urdd, gyda Lowri Jones 7N (canol y rhes flaen) a ddaeth yn fuddugol yn y ddawns unigol.

## antur WAUNFAWR

### Cynllun Dodrefn

Mae'r Cynllun yn brin o gyfraniadau nwyddau trydanol, yn arbennig poptai, oergelloedd, peiriannau golchi a rhewgelloedd fyddai'n addas i'w cleientau ar incwm isel

Gwasanaeth casglu rhad ac am ddim

01286 674 155  
www.anturwaunfawr.org

ANTUR  
WAUNFAWR

SWEDD  
KALLEN  
GASTRAN  
CYMAU  
NATURAL LOTTERY  
CHARITIES BOARD



# ARVONIA

LLANRUG Ffôn: 01286 675175

GWYLIAU CARTREF A THRAMOR

Cwmni teuluol gydag 20 mlynedd o brofiad o

redeg Pecynnau Gwyliu oll-gynhwysol



Palas  
PRINT

## CADW LLYFRAU

Ar drothwy Diwrnod Rhyngwladol y Llyfr fe roddodd dynes o Fro'r Eco y gorau i'w swydd llawn amser ym Mhrifysgol Bangor er mwyn rhedeg ei siop lyfrau ei hun yng Nghaernarfon.

Eirian James, o Llanrug, yw perchennog Siop Lyfrau Palas Print yn Stryd y Plas yn y dref ers yr haf diwethaf.

Tan yr wythnos hon llwyddodd Eirian, sy'n un o olygyddion yr Eco, i rannu ei hamser rhwng y siop a'i dyletswyddau yn Adran Addysg Gydol Oes y Brifysgol.

'Ond daeth hi'n bryd i mi roi fy sylw i gyd i fy menter ym myd y llyfrau,' meddai Eirian, sy'n 31 mlwydd oed ac yn hannu o Landeilo yn Sir Gaerfyrddin.

'Gyda Diwrnod Rhyngwladol y Llyfr yn cael ei gynnal ddechrau Mawrth pa amser gwell i droi at gadw siop lyfrau am fywoliaeth.'

Nid yw byd y llyfrwerthwr yn gwbl ddiethr i Eirian, gan iddi weithio unwaith fel cynrychiolydd gwerthiant gyda Chyngor Llyfrau Cymru.

'Bu gennyf uchelgais i gadw fy siop lyfrau fy hun erioed,' meddai Eirian. 'Ac er bod gadael gwaith sefydlog yn y Brifysgol a chamu i fyd busnes yn fenter fawr rwy'n ffyddiog y bydd yr ymdrech yn un gwerth



chweil yn y diwedd,' ychwanegodd.

Cyn buddsoddi yn siop lyfrau Palas Print - Twll yn y Wal gynt - manteisiodd Eirian hefyd ar gyngor ynglŷn â dechrau a chynllunio busnes gan Gynghorwyr Cefnogi Busnes Gwynedd.

'Da ni'n gallu cynnig gwasanaeth chwilota ac archebu llyfrau i bobl yn y siop, dros y ffôn neu drwy e-bost, gan gynnwys llyfrau Cymraeg a Saesneg, llyfrau plant, CD's a Fideos.'

## E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU  
CEIR AR GYFER PRIODASAU

## Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Ancuryn Jones a'r staff

### RHODDION

£10: Mrs Mona Griffith.

£5: Mrs L. E. Owen, Plas Pengwaith, Llanberis; Mr Robert Williams, Llain Gwta, Llanrug; Gwenllian, Weirglodd Goch, Penisarwaun; Dafydd a

Catrin Evans, Deiniolen; Mrs Nancy Jones, Mcillionydd, Penisarwaun.

£3: Mrs Bet Jones, Lyndale, Ffordd yr Orsaf, Llanrug;

£2: Mrs Sarah Lewis, 4 Tref Eilian, Waunfawr.

## ECO'R WYDDFA

- Os cawsoch flas ar ddarllen Eco'r Wyddfa dros y 26 mlynedd diwethaf...
- Os hoffech ddweud diolch wrth y fyddin o wirfoddolwyr a fu'n ei gynhyrchu a'i werthu ers Chwefror 1976...
- Os hoffech roi hwb ymarferol i'r papur ar drothwy ei 300'fed rhifyn...  
mae'r ateb yn syml!

Anfonwch rodd o arian neu siec at Drysorydd Eco'r Wyddfa, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.  
Bydd pob ceiniog yn mynd tuag at gynhyrchu'r 300 rhifyn nesaf.

Diolch yn fawr.



## BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

LLONGYFARCHIADAU mawr i Mrs Tegwen Morris, Bro Eglwys ar ei phenodiad yn brifathrawes yn Ysgol Pencarnisiog, Ynys Môn. Dymuniadau gorau iddi yn ei swydd newydd.

MERCHED Y WAWR. Dathlu Gŵyl Ddewi fu hanes aelodau'r gangen y mis yma, a hynny yn Y Bistro, Llanberis. Croesawyd pawb yno gan y Llywydd, Beti Owen, ac anfonodd gofion at dair gyn-aelod o'r gangen, dwy oedd yn cael eu pen-blwydd ar y diwrnod, sef Mary Griffiths a Mair Jones, ac i Gwyneth Hughes, yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty.

Llongyfarchwyd Margaret Williams ar gyrraedd pen-blwydd arbennig a dymunwyd yn dda i Mary Evans ar ôl derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymunwyd yn dda hefyd i nifer o blant yr aelodau a oedd ar fin cystadlu yn Eisteddfod Sir yr Urdd.

Hysbyswyd yr aelodau am y Cwis Cenedlaethol sydd i'w gynnal yng Ngwesty'r Victoria Llanberis ar nos Wener, Ebrill 4 ac am Wyl y Pum Rhanbarth yn Ysgol Friars, Bangor ar Fai 10.

Yn dilyn gwledd ar blât, ar ffurf bwffe, cafwyd gwledd i'r glust gydag adloniant yng nghwmni tri o bobl ifanc Deiniolen, sef Elfed Morris, Ffion Medi a Manon Wyn. Roedd ei rhaglen yn cynnwys nifer o ganeuon, yn unigol ac yn ddeuawdau, ac yn addas iawn i Noson Gŵyl Ddewi gan fod y caneuon i gyd gan gyfansoddwyr cyfoes Cymreig. Diolchwyd iddynt am noson arbennig, ar ran y gangen, gan Rhian Hughes.

Enillwyr gwobrau'r raffl oedd Sheila, Gwyneth Jones, Sharon, Mary, Alys a Margaret Williams. Tynnwyd dyddiad Iwcus y dyddiadur, a'r enillydd oedd Pat Ll. Jones, Pwllheli. Etholwyd swyddogion am y tymor 2003-2004 fel a ganlyn: Llywydd - Anita Owen; Ysgrifennydd - Liz Watkin; Trysorydd - Gwyneth Jones; Is-Lywydd - Nan Rowlands; Is-Ysgrifennydd - Deilwen Hughes; Is-Drysorydd - Mair Read; aelodau ychwanegol i'r Pwyllgor fydd Rhian Hughes, Anne Elis, Ann Lewis, Sharon Owen, Lynnwen Morris ac Edwina Morris.

EISTEDDFOD. Bydd yr Eisteddfod leol eleni yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 8 gyda'r Noson Dawnsio ar nos Fawrth, Hydref 28. Swyddogion y Pwyllgor fel a ganlyn: Cadeirydd - Glenys Griffiths; Is-Gadeirydd - Iola Jones; Ysgrifennydd - Manon Gwynedd; Ysgrifennydd Tariannau - Nora Parry; Ysgrifennydd Dawnsio - Sian Harris; Trysorydd - Nan Jones.

CAPEL Y CYSEGR. Bedyddiwyd dau blentyn yn ddiweddar gan y Gweinidog, sef Erin Haf Bee, merch fach Manon a Mark, a Siôn William White, mab bach Angharad ac Anthony, Mae'r ddau blentyn yn wyrion i Geraint ac Anne Elis, a gor-wyrion i Jean Elis.

Dathlwyd Gŵyl Ddewi gyda

holl blant yr Ysgol Sul yn cymeryd rhan mewn gwasanaeth arbennig. Roedd pob dosbarth yn gyfrifol am bortreadu personau a oedd wedi cyflawni cymwynasau mawr dros gyfnod o flynyddoedd, yma yng Nghymru ac ymhellach, megis Gladys Aylward, Florence Nightingale, William Morgan, Albert Schweitzer a Dewi Sant. CLWB BRO BETHEL. Dydd Mercher, Chwefror 5 cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Mr Gwilym Charles Williams, sy'n gweithio i Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru. Bu Mr Williams yn sôn am wahanol anghenion y deillion. Diolchwyd iddo gan Mr W. James.

Ar Fawrth 4 bu'r Clwb yn dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni plant yr



ysgol a mwynhaodd pawb y cyngerdd ardderchog a'r te, wedi ei ddarparu gan y plant. Diolchwyd i'r ysgol am eu croeso gan y Parch Gwynfor Williams a Mr Goronwy Jones.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Ffestri Bethel ar Ebrill 1, pryd y disgwylir Mrs Jane Eryl Jones i roi sgwrs.


CLWB 100 CLWB PÊL-DROED. Enillwyr gwobrau Chwefror oedd: B. & R. Gadd - £100; Harry Bach - £50; Bethan Williams - £25; Dafydd Jones, Llanddeiniolen - £25.

Am ragor o wybodaeth neu i ymuno, cysyllter â Mr Tecwyn Hughes, 4 Y Ddôl (01248 671469). NEWYDDION O'R YSGOL. Rydym fel ysgol yn dymuno'n dda i Mrs Nia Guillemain sydd adref yn sâl ar hyn o bryd. Gobeithio ei bod yn teimlo'n well ac y bydd yn ôl yn yr ysgol yn fuan.

Bu'r wythnosau diwethaf yn rhai prysur iawn i blant ac athrawon yr ysgol. Dydd Mawrth, Mawrth 4, cawsom groesawu aelodau Clwb Bro Bethel i'r ysgol i ddathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni'r plant. Cafwyd eitemau gan holl blant yr ysgol a the blasus wedi ei baratoi a'i weini gan blant blwyddyn 6.

Bu'r plant yn hynod llwyddiannus yn Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mangor ar Fawrth 15. Bu Siôn Elwyn yn fuddugol yn y gystadleuaeth Pres; Danielle a Kelly Cavanaga am y dawnsio disgo unigol, a'r Grŵp Offerynol a'r Parti Deulais yn fuddugol yn eu cystadlaethau hwythau.

Llongyfarchiadau cynnes iddynt i gyd a'n dymuniadau gorau iddynt yn y Genedlaethol ar ddiwedd Mai.



Mrs Jane Hughes yn dangos rhai o'r hen greiriau o gyfnod Mari Jones i blant Ysgol Bethel.

Cafodd y plant wledd fore dydd Mercher pan daeth Mrs Jane Hughes o bentre Bethel ger y Bala i'r ysgol. Cyn athrawes yn Ysgol Ffridd y Llyn yw Mrs Hughes a siaradodd hefo'r plant am Mari Jones a'i Beibl. Roedd ganddi nifer o greiriau'r cyfnod i'w dangos

- y Beibl mawr, kannwyll frwyn, esgidiau a nifer o bethau eraill.

Dydd Gwener, Mawrth 14 roedd golwg digon od ar blant ac athrawon yr ysgol. Gwnaeth pawb ymdrech arbennig i godi arian i ddydd 'Comic Relief' trwy gael 'Diwrnod Gwallt Gwallgo'. Nid yw'r arian i gyd wedi dod i law, felly cawn wybod y cyfanswm y tro nesaf.

Bu Mr Gareth Griffith, tad Gethin, Blwyddyn 4, draw ddydd Gwener i sôn am 'Dân Mawr Llundain' a diogelwch rhag tân yn ein cartrefi heddiw, wrth blant blynyddoedd 3 a 4.

YR URDD. Llongyfarchiadau mawr i holl aelodau Cangen yr Urdd ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir. Dymuniadau gorau i'r aelodau sydd wedi llwyddo i fynd ymlaen i Eisteddfod Genedlaethol Nedd ac Afan. I Siôn Elwyn ar y corn, Danielle a Kelly Cavanaga i ddawnsio disgo ac i'r Grŵp Offerynol a'r Parti Deulais.



Offerynwyr llwyddiannus Bethel ym Mhencampwriaeth Unawdau Gogledd Cymru.

## DRAENOG BLODYN MEWN GWELY

'Plannu bylbs oeddwn i!' Dyna oedd esgus trydanwr enwog o Stryd Thomas, Llanberis pan y'i gwelwyd yn ystwyrian yn y tŷ gwydr yn ystod oriau mân y bore. Plannu bylbs? Pa well esgus gan 'electrician'. Ond cymaint hefyd oedd amheuan trigolion stryd sydd yn dwyn yr enw Thomas! Ond rhag croesi mwy o 'weiers' gall

Draenog roi 'goleuni' ar y mater a datgelu mai wedi cloi ei hun allan o'r tŷ yn dilyn practis (hwyr) Côr Dyffryn Peris yr oedd yr hen 'sbare'. Er ei fod mewn 'sioc' doedd dim i'w wneud ond chwilio am le cysurus yn y tŷ gwydr a'i rhochian hi tan y bore! Plannu bylbs mai ffwt! Hofwn ei atgoffa, gan fod y côr yn mynd i Amsterdam ym Mis Medi, mai 'Tulips FROM Amsterdam' ydi teitl y gân enwog, ac nid 'Tulips TO Amsterdam'.



## CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.  
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

**CYNGOR CYMUNED.** Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned yn y Ganolfan, Waunfawr ar nos Fercher, Chwefror 28. Roedd y Cyng Clive James yn bresennol a chafwyd ymddiheuriad dros y Cyng Vera Roberts.

Cafwyd trafodaeth dros hawl trigolion hen Ward Castellmai cyn 1985 i gael eu claddu ym Mynwent y Cyngor Betws Garmon ar yr un telerau â thrigolion ffiniau newydd y Cyngor.

Oherwydd diffyg consyrn gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â nifer o faterion ynglŷn â Chaeathro, penderfynodd y Cyngor gwyno'n swyddogol i Swyddog Monitro'r Cyngor ynglŷn â difaterwch y Cyngor ac anghwrteisi sylfaenol. Fodd bynnag, roedd trafodaethau'n parhau ynglŷn â gor-yrru a phasio'n beryglus, a cherbydau'n troi ar Bencefn.

Hefyd mae trafodaethau yn parhau ynglŷn â llwybr cyhoeddus o'r briffordd i Dyddyn Whisgyn a thrwy'r hen adeiladau fferm.

Mae Pwyllgor Cynllunio Arfon wedi caniatáu ailadeiladu Clwb y Pwll Nofio, Gwesyll Glangwna, ond wedi gwrthod cais i godi dau anedd-dŷ o dan y cae pêl-droed.

Penderfynwyd rhoi grant o £100 i Ysgol Feithrin y Bontnewydd ar ran y plant sy'n dod o Gaeathro. Rhoddodd y Cyngor £50 yr un at 'CAB' Caernarfon ac Eisteddfod yr Urdd, Parc Margam.

Gellir gweld copi o'r arolwg bywyd gwyllt prin a wnaed ar gyfer safle gwaith brics Caernarfon trwy gysylltu â'r Cyng Clive James.

Mae'r Cyngor Gymuned wedi cytuno i brynu a gosod mainc newydd ar gyfer sgwâr y pentref.

Mae angen sicrhau hawl tramwyo cyhoeddus ar droed, ceffyl, beic neu fodur trwy Blas Glanrafon oherwydd fod roler mawr o flaen giât y buarth ar ochr Waunfawr a slyri'n gorlifo dros y ffordd. Hefyd gofynnir am archwiliad i ffynhonnell y dŵr sy'n llifo o flaen Ty'n y Coed ac yn rhewi mewn tywydd oer.

**NON 20 - DEWI 11.** Daeth 20 o ferched y fro i giniawa ym Mryngwna nos lau, cyn Gŵyl Dewi Sant ond dim ond 11 o hogia'r fro a aeth i Fangor ar ei Noswyl. Llongyfarchiadau i'r genod - wedi'u hysbrydoli gan chwaer Dewi Sant.

**PENCAMPWRIAETH EWROP.** Llongyfarchiadau i Hannah Hughes, Llyngela ar ennill medal efydd ym Mhencampwriaethau Judo Ewrop yng Ngwlad Belg ar ddechrau'r mis.

**BEDYDD.** Dydd Sul, Mawrth 2 oedd diwrnod bedyddio Daniel Cadwaladr, mab Aaron (Llecyn Glyd) a Nicola Evans, gan y Parch Gwenda Richards.

**CLWB MERCHED.** Ail-sefydlwyd Clwb Merched yng Nghaeathro ddechrau'r flwyddyn ac, ar nos lau, Chwefror 27, daeth ugain o aelodau at ei gilydd i fwynhau noson ddifyr a swper ym

Mryngwna. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd, Marian Huws, a rhoddodd fanylion o'r cyfarfodydd i ddod.

Enillwyd y raffl gan Olga a Kathy, ac fe'i rhoddwyd gan Mair, Rhiannon a Nan. Bydd y clwb yn cyfarfod am 8 o'r gloch ar y trydydd nos lau o'r mis.

**MARWOLAETH.** Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Dwynwen Griffiths, Llys Menai, Bryn y Gof a fu farw, yn 82 oed, ar ddydd Sul, Mawrth 2. Un o blant y pentref oedd Dwynwen a chyda'r diweddar Gwilym roedd ganddynt wyth o blant. Ar ôl gwasanaeth yng Nghapel Caeathro, a arweinwyd gan y Parch Eric Roberts (Erw Wen gynt) mae hi'n awr yn gorffwys gyda Gwilym ym Mynwent Caeathro.

**TYNFA MISOL.** Enillwyr Tynfa Misol Pwyllgor y Cae Chwarae ar gyfer mis Mawrth oedd: £40: (83) Wendi a Marc Williams, Glandwr; £25: (50) Tony ac Eirian, Anedd; £15: (21) Arwel Evans, Tai Glangwna; £5: (14) Rich a Carey Jones, Tryfan.

**WYAU PASG.** Bydd Helfa Wyau Pasg ar gyfer y plant iau a chynradd am 11.00 ar Sul y Pasg. Pawb i gwrdd ym maes parcio Tafarn Bryngwna.

**GWASANAETHAU'R CAPEL.** Cynhelir y gwasanaethau canlynol yn ystod mis Ebrill/Mai.

6 11.00 Ysgol Sul;  
2.00 Parch Ronald Williams;  
13 Dim gwasanaethau;  
20 10.00 Gwasanaeth Teuluol ar gyfer y Pasg;  
27 Dim gwasanaethau;  
Mai 4 10.00 Mr John Huw Hughes;  
11.00 Ysgol Sul.

**SIOE BRETHYN CARTREF.** Bydd noson o adloniant yng nghwmni Dafydd Iwan, Dylan a Neil, Gwyn a Lliwen a Chôr Waunfawr yng Nghanolfan y Capel ar nos Lun, Ebrill 7 am 7.30 o'r gloch. Bydd yr elw ar gyfer Cronfa Ailadeilau'r Ganolfan a'r Capel. Ticedi: £5 i oedolion a £3 pensïynwyr a phlant a byddant ar werth gan aelodau'r pwyllgor, yn Nhafarn Bryngwna, Siop Na Nog (Y Maes, Caernarfon) a Garej Gwalia. Manylion pellach gan Gwyn (01286) 673594.

**CHIROPODIST**  
**Gwasanaeth**  
**yn eich cartref**

**E. Ll. Parry**  
**M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.**

**57 Glanffynnon**  
**LLANRUG**  
**Ffôn:**  
**(01286) 675754**

## LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

**PENBLWYDDI ARBENNIG.**

Llongyfarchiadau mawr i Mr Robert Williams, Llain Gwta, Gwêl Fynydd ar ddathlu ei ben-blwydd y mis yma yn 90 oed. Hefyd i Mr Gwilym Williams, Bryn Eifion, Ffordd yr Orsaf ar ei ben-blwydd yntau yn 80 oed. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch.

**YN YR YSBYTY.** Cofion gorau am wellhad buan i Mr Jac Hughes, Penlon, Bryn Gwyn. Cafodd ddamwain yn ddiweddar ac mae wedi treulio amser yn yr ysbyty.



Mrs Jean Davies wrth fedd Hedd Wyn.

**YMWELD Â BEDD HEDD WYN.** Ddiwedd Chwefror aeth criw o fro'r Eco ar daith i wlad Belg i ddathlu Gŵyl Ddewi a chafwyd amser bendigedig yno.

Ar Fawrth 1af, sef Dydd ein Nawddsant, ymwelwyd â Mynwent Artillery Wood a gosodwyd cennin Pedr ar fedd y Prifardd Hedd Wyn ar ran y criw gan Mrs Jean Davies, Rhyd-y-Delyn, Llanrug. Yna fe ganwyd Englynion Coffa Hedd Wyn dan arweiniad Mr Harri Hughes, Pontllyfni. I offen y dydd cafwyd noson Gymreig yn y gwesty dan ofal Ray John.

Dymuna'r criw ddymuno pen-blwydd hapus i Mrs Davies ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 ar Ebrill 7.

**CYDYMDEIMLAD.** Anfonwn ein cydymdeimlad i Mrs Maggie Lewis, Madryn yn ei phrofedigaeth o golli ei mab yng nghyfraith yn y Waenfawr, sef Mr Will Jones, gŵr annwyl Margaret a thad Sandra ac Ella a thaid Siôn, Gareth ac Anest.

**CLWB CYFEILLION YR YSGOL.** Dyma enillwyr mis Chwefror:

£20: (110) Rebecca Elliott, 2 Fron Oleu, Ceunant; £10: (76) Betty Pritchard, Llys Awen, Rhosgadfan; £8: (92) Llifon Glyn Williams, Arwelfa, Llanrug; £5: (103) Jessica Salisbury, 16 Cefn Elan, Llanrug; £4: (78) Valerie Jones, 5 Nant y Glyn, Llanrug.

Enillwyr mis Mawrth oedd: £20: (30) E. Fleming, Cartrefle, Bryn Moelyn, Llanrug; £10: (32) Rhian Hughes, Ysgol Llanrug; £8: (109) Shannon Marie Owen, Gladwyn, Station Road, Llanrug; £5: (55) Gill Rochell, Glyntwrog Inn, Llanrug; £4: (25) Margaret Jones, Cae Rhos, Llanrug.

**YSGOL LLANRUG.** Yr Urdd. Bu aelodau'r Urdd yn cystalu yn y ddwy Eisteddfod Cylch a bu Gwenno Gibbard, Parti Dawns dan 10 oed, Parti Canu Unsain, y Parti Cerdd Dant a'r Grŵp Ymgom yn cynrychioli cylch Arfon yn yr Eisteddfod Sir ym Mangor, lle daeth y Parti Cerdd Dant yn ail a'r Grŵp Ymgom yn drydydd yn eu

cystadleuaeth. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch am ddysgu eich gwaith mor dda.

Dymunwn ddiolch i'r rhieni am eu cefnogaeth i weithgareddau'r Urdd. Cyngerdd Dathlu Gŵyl Ddewi. Cafwyd eitemau gan adran y Babanod ac aelodau'r Urdd bore Gwener, Chwefror 28. Dymunwn ddiolch i rieni a ffrindiau'r ysgol am eu cefnogaeth ac am y rhoddion ariannol. Casglwyd dros wyth gan punt at apêl y *Daily Post* i 'Tŷ Gobaith' yng Ngogledd Cymru. Diwrnod Apêl y Trwynau Coch.

Roedd plant gyda gwalltau lliwgar dros ben yn yr ysgol ddydd Gwener, Mawrth 14 a phob un yn talu dirwy tuag at yr apêl i blant. Casglwyd dros gan punt i'r gronfa. Diolch i bawb a gyfrannodd.

Diwrnod y Llyfr. Roedd amryw o gymeriadau o lyfrau yn yr ysgol ddydd lau, Mawrth 6 gan ei bod yn 'Ddiwrnod y Llyfr'.

Ymweld ag Ysgol Brynrefail. Daeth disgyblion Bl.6 i'r ysgol fore Mawrth yn llawn o'r hanes am eu diwrnod o ymweliad ac Ysgol Uwchradd Brynrefail. Diolch i'r Prifathro a'r staff am eu croeso.

Rownd a Rownd. Bu Bl. 5 yn cymryd rhan mewn ffilmio rhaglen ar Rownd a Rownd. Cawsant gyfle i wisgo i fyny mewn gwisg ffansi a chymryd arnynt fod yn rhan o Garnifal y pentref. Ffilmiwyd y rhaglen yn Neuadd Bentref Llandegfan a chafodd y plant gyfle i gyfarfod â chymeriadau poblogaidd y rhaglen Rownd a Rownd.

Bydd y rhaglen yn cael ei darlledu yr wythnos olaf ym mis Mai.

**DYDD GWEDDI BYD EANG.** Cynhaliwyd Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yng Nghapel Hermon, bnawn Gwener, Mawrth 7. Yr oedd y neges eleni gan Chwiorydd Cristnogol Lebanon. Yr arweinydd oedd Mrs Beryl Thomas. Diolch i bawb gymerodd ran yn y gwasanaeth.

**MERCHED Y WAWR.** Cynhaliwyd cyfarfod i ddathlu Gŵyl Ddewi yn y Ganolfan ar Fawrth 11. Rhoddodd y Llywydd, Menna Williams, groeso arbennig i Nan, Meriwen a Carrie a fethodd a bod yn y cyfarfod diwethaf oherwydd salwch. Llongyfarchwyd Helen Parry ar ddod yn nain unwaith eto - ganwyd efeilliaid i Gwenno.

Bu'r aelodau yn hynod o brysur yn darparu lluniaeth ar gyfer y cystadleuwyr yn Eisteddfod Yr Urdd ar Fawrth y cyntaf. Cafwyd diwrnod llwyddiannus a diolchodd y Llywydd i'r aelodau am eu cymorth a'u cyfraniadau. Dymuna'r aelodau ddiolch i Gwynfa Pritchard am ei gyfraniad yntau.

Mae nier o weithgareddau wedi eu trefnu ar gyfer yr wythnosau nesaf a dylai'r aelodau gysylltu â Bethanne os dymunant fynd i'r Cwis Hwyl ar Ebrill 4 neu i Wyl y Pum Rhanbarth ar Fai 10.

Cafwyd hoson hwyliog yn gwrando ar nifer o'r aelodau yn trafod eitemau yr oeddynt yn eu trysori, nid yn gymaint am eu gwerth ariannol ond oherwydd eu cysylltiad â pherson neu ie. Roedd Bethanne wedi trefnu lluniaeth arbennig ar ein cyfer a diolchwyd iddi am ei threfniadau trylwyr. Enillwyd y raffl gan Meirwen, Mair a Bethanne. Diolch i Megan, Helen a Carrie am y rhoddion.



## PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

CYMANFA'R ANNIBYNWYR, CYLCH DEINIOLLEN A CHWM-Y-GLO. Cynhelir y Gymanfa eleni yng Nghapel Bosra, Penisarwaun bnawn Sul, Ebrill 6 am 2 o'r gloch. Arweinydd y Gân fydd John Eifion. Gwneir casgliad tuag at y Gymanfa. Bydd y bws yn cychwyn o

Llanberis am 1.15 pm;  
Cwm-y-glo am 1.25pm;  
Deiniol am 1.35pm.

Gofynnir yn garedig am dâl o £1 yr oedolyn. Erfynnir am eich presenoldeb.

Bydd iard yr Ysgol Gymuned ar gael i barcio ceir.

URDD ADRAN BENTREF.

Nos Fercher, Mawrth 19 mwynhawyd Gemau'r Urdd; Mawrth 26 bydd cyfle i wneud gwaith llaw ar gyfer Sul y Mamau; Ebrill 2 gobeithir trefnu gweithgareddau gwaith llaw ar gyfer y Pasg.

Llongyfarchir Anest Bryn ar ei champ fawr yn cipio'r wobr gyntaf am Ddawnsio Gwerin Unigol yn Eisteddfod Sir Eryri, ddydd Sadwrn Mawrth 15. Llongyfarchiadau hefyd i'w hyfforddwr, Judith Harding. Pob dymuniad da i ti Anest yn y Genedlaethol ym mis Mai. PRIODAS HAPUS.

Llongyfarchiadau i Ceirion a Donna ar achlysur eu priodas a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon ar Fawrth 1af. Pob bendith i'r ddau ohonoch.

YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA. Cynhelir Cymanfa yr Annibynwyr, Cylch Deiniol a Chwm-y-glo yng Nghapel Bosra, bnawn Sul, Ebrill 6 am 2.00 o'r gloch. Arweinydd y Gân fydd John Eifion. Genir emynau o'r llyfr *Caneuon Ffydd* a gwneir casgliad tuag at y Gymanfa. Croeso cynnes i bawb. Bydd iard yr Ysgol Gymuned ar gael i barcio.

GWELLHAD. Anfonwn ein cofion anwylaf at bawb ohonoch sy'n sâl yn y pentref. Deallir fod rhai ohonoch wedi derbyn triniaethau yn yr ysbyty a dymunwn y gorau i chi.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Mawrth a'r enillwyr oedd: Catrin Glyn, Erw Gain, Llanrug; Mrs E. Williams, 2 Bryn

Tirion; Sharon Davies, Pant Afon. Gobeithir cynnal gweithgareddau tuag at gynnal y Neuadd yn yr wythnosau nesaf. Gobeithir y cawn eich cefnogaeth.

PARI PEN-BLWYDD TWF. Bu rhai o blant bach y pentref yn ymuno yn hwyl parti y cynllun TWF yn un oed yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon. Mae'n amlwg fod Anti Jean a Jordan yn mwynhau eu hunain a braf yw clywed Jordan bach wedi dod i siarad Cymraeg mor sydyn.



Anti Jean a Jordan a phlant bach y fro yn mwynhau eu hunain wrth ddathlu pen-blwydd TWF yn un oed.

TWF yw'r cynllun sy'n annog rhieni i drosglwyddo'r iaith Gymraeg i'w plant drwy siarad ar yr aelwyd er mwyn magu hyder yn y plant i gyfathrebu yn y ddwy iaith.

Cynhaliwyd parti Arfon yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon ddydd Gwener, Mawrth 14. I ddiddanu'r plant roedd Castell Neidio; tegannau meddal; peintio wynebâu gyda Carol Williams o Lanrug; Owen o Gwmni Cortyn hefo'i bypedau a Lisa o 'Dawns i Bawb' yn cynnal gweithdy dawn. Do fe ddaeth Sam Tân i'w gweld hefyd ac i ymuno yn yr hwyl.

Os dymunwch fwy o wybodaeth am y cynllun TWF, cysyllter â Elizabeth Woodcock, (012186 870121). Croeso cynnes. DYMUNA Gwenllian, Weirgodd Goch, ddiolch o galon am y llu cardiau, arian, anrhegion a blodau bendigedig a gafodd ar ei phen-

blwydd arbennig.

Hefyd am y bwyd ardderchog yng Ngwesty Fictoria. Braf oedd cael ymlacio, yn enwedig gyda'r wyresau a'r wyrion, a fy nai bach. Hefyd Yncl Basil ar y piano. Gwych.

Hefyd braf oedd gweld Rachel wedi gwella ar ôl bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Nain xxx Taid xxx LLONGYFARCHIADAU hefyd i Mr a Mrs Dafydd Roberts, 10 Bryntirion a ddathlodd eu Priodas Aur yn ddiweddar.

YR YSGOL GYMUNED. Bu disgyblion Bl.6 am ddiwrnod yn Ysgol Brynrefail ddydd Mawrth, Mawrth 18 a diolchir i'r Prifathro a'r staff am eu croeso.

Yn dilyn eu thema dosbarth bu Bl.3 a 4 yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis. Cawsant hwyl yn troi y 'mangyl' i wasgu'r dŵr o'u dillad.

Bu Bl.1 a 2 yn Siop Sglodion Tegfan, Llanrug yn dilyn eu thema hwy.

EGLWYS SANTES HELEN.

FICER NEWYDD. Ar nos Fawrth, Ebrill 8 am 7 o'r gloch caiff y Parchedig Ann Smitham, Y Felinheli ei sefydlu i ofal Eglwys Sant Helen.

Golyga hyn y bydd Eglwys Penisarwaun yn dod yn rhan o blwyf Llanfairisgaer a Llanddeiniolen. Bydd pedair eglwys yn y plwyf wedyn, sef Llanddeiniolen, Y Felinheli, Llanfairisgaer, a rŵan Penisarwaun. Mae'r Parch Ann Smitham wedi bod ym mhlwyf Felinheli ers 1998.

Ers mis Mai y llynedd y Deon Gwlad, y Canon Idris Thomas, sydd wedi bod yn gofalu am St. Helen a chynhaliwyd Cyngorau Plwyf Eglwys yn rheolaidd ers ei ddod. Yn y Cyngor blaenorol (Mawrth 3) aethpwyd ati i drefnu yn drwyad y gwasanaeth sefydlu ar Ebrill 8. Mae croeso i bawb i'r gwasanaeth gyda lluniaeth yn y Neuadd ar ôl hynny.

Bydd hyn oll yn bennod newydd yn hanes St. Helen.

Cynhelir y Ffestri Pasg, dan lywyddiaeth y Deon Gwlad, ar Ebrill 2 am 7.00 o'r gloch a bydd ymarfer gogyfer â'r gwasanaeth sefydlu ar y noson ganlynol, Ebrill 3 am 7.00 o'r gloch.

Bydd gwasanaeth cyntaf y Parch Ann Smitham yn St. Helen ar Sul y Blodau (Ebrill 13) am 5.00 o'r gloch a hi fydd yno hefyd ar Sul y Pasg (Ebrill 20) am 5.00 o'r gloch.



Bachgen dewr yn cael ei droi yn Spiderman gan Carol Williams o Lanrug yn nhe parti TWF.

Ar brynhawn y Groglith (Ebrill 18) am 2.00 o'r gloch, Mr Derek Jones fydd yn gwasanaethu ac ar Sul olaf Ebrill (27) Mrs Susan Williams fydd yn gwasanaethu am 10.30 o'r gloch.

CYFEILLION YR YSGOL.

BARBECIWIW CYNTAF Y TYMORI! Pêl-droed, bwyd a Noson o Hwyl! Dyna fydd ar gael ar Fai 1af yn Ysgol Brynrefail, Llanrug.

Bydd cyfle i'r timau pêl-droed 7-bob-ochr, 10 mewn sgwad, gofrestru trwy'r ysgol am £10 y tîm (£1 y pen). Timau cymysg fyddan nhw gydag o leiaf ddwy ferch a dau o hogiau a dau oedolyn. Bydd gwobrau di-rif ar gyfer timau eraill megis gwisg ffansi, y tîm hynaf o ferched ayyb. Pobl ifanc yr Ysgol fydd yn ceisio rhoi trefn ar y timau. Beth am i ambell oedolyn roi cynnig ar gael tîm at ei gilydd? Ceir mwy o fanylion gan yr ysgol.

Yn ystod y noson bydd bwyd - yn cynnwys cŵn poeth, byrgyrs, teisennau ayyb. Barbaciw Cyntaf y Tymor.

Tynnir y Raffl Fawr sydd wedi bod yn cael ei gwerthu dros fisoedd y gaeaf. Trefnir raffl ar y noson yn ogystal. Bydd gemau eraill yn cael eu trefnu er mwyn sicrhau fod pawb o bob oedran yn cael hwyl.

Bydd elw'r noson yn mynd tuag at brynu rhagor o Fyrddau Gwyn Technoleg i'r ysgol.

Bydd y noson yn cychwyn am 6.00 o'r gloch gyda'r gemau pêl-droed yn dilyn. Mynediad am ddim! Felly dewch i gael hwyl ac i ddathlu dechrau'r haf.

Am fanylion pellach, neu os dymunwch gynnig helpu, cysylltwch â'r ysgol (870879) neu Ysgrifennydd Cyfeillion yr Ysgol (870121).

PARTI PEN-BLWYDD TWF. Cafodd dros gant o blant hwyl a sbri mewn parti bywiog i ddathlu pen-blwydd y prosiect TWF yn un oed.

CARTREF NYRSIO PENISARWAUN. Brynhawn Sadwrn, Mawrth 1af cafwyd cyngerdd i ddathlu Gŵyl Ddewi gydag Alun ac Wmffra o'r Waenfawr; Katie Wyn Jones o Landwrog ac Elwyn (Hogia'r Wyddfa) o Lanberis gynt gyda Hefina ei wraig yn cyfeilio.

Mwynhawyd te blasus o gawl cennin, bara brith a chacen gri wedi'i baratoi gan gogyddes y Cartref, Hilary Humphreys. Talwyd y diolchiadau gan Mr Bob Parry a Mr Dafydd Parry. Diolchir i Mr a Mrs Paul am eu croeso arferol. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr.

Nos Lun, Mawrth 10 bu Côr Clychau'r Grug, Llanrug yn eu diddori gyda chaneuon gwerin, caneuon o'r sioeau, deuawdau ac unawdau ac ymunodd y preswylwyr i ganu caneuon gwerin adnabyddus. Diolchwyd iddynt gan Bob Parry a mwynhaodd pawb y lluniaeth wedi'r canu.

DIOLCH. Dymuna Iris Williams, Cae'r Bleddyn ddiolch yn gynnes iawn i bawb am eu dymuniadau da, am y cardiau a'r blodau, y galwadau ffôn a'r ymweliadau yn ystod ei llawdriniaeth yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Mrs Nel Williams, 2 Bryn Tirion ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed ar Fawrth 267.

## DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)

CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco



## Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

(Parhad o dudalen 9)

agregiadau eilaidd. Rhaid ystyried tirlun, aflonyddwch i'r gymuned, gwerth ecolyddol a nodweddion hanesyddol cyn defnyddio unrhyw domen lechi. Defnyddir tomenni Blaenau Ffestiniog oherwydd hwylustod rheilffordd Dyffryn Conwy i'w gario ymaith. Eto, gellir cael copi o'r adroddiad cyfan oddi wrth y Clerc.

**Polisi Tai Cyngor Gwynedd.** Dyfynnir o lythyr Mr Wigley 'Bu cyfle i drafod polisi tai gyda swyddogion Cyngor Gwynedd a swyddogion o Adran Tai y Cynulliad Cenedlaethol mewn cyfarfod yn y Cyngor Sir yng Nghaernarfon. Fe godais y cwestiwn penodol yn ymwneud â hawliau pobl leol i gael tai o fewn eu cymuned, gan gyfeirio at y sefyllfa ym mhentref Bethel. Fe nodwyd y pwynt gan y swyddogion a gobeithiaf y bydd ystyriaeth yn cael ei roddi i'r modd y mae'r rhestr disgwyl yn cael ei blaenori.

**Ymateb Cymraeg o'r Cynulliad Cenedlaethol.** Ar y pwynt ei bod yn cymryd tri mis i'r Cynulliad ateb cais Amcan 1. Ateb Mr John Clarke, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, nad oedd yn ymwybodol o hyn, er eu bod yn dibynnu ar y gwasanaeth cyfieithu, ccisir prosesu ceisiadau cyn gynted a phosib. Mae gan y Cyngorydd Huw P. Hughes brawf bod cais wedi cymryd o fis Mehefin tan fis Medi i'w ateb.

**Aelodaeth o Gymdeithas Cyngorau Bro a Thref Cymru (CCBTC)**

Penderfynwyd ymaelodi am y flwyddyn 2003/2004.

**Gohebiaethau eraill**

Cyflwynwyd y canlynol:

Mantell Gwynedd - Ffair Arianwyr ym Mhlas Tan y Bwlch ar 24ain o Fawrth; Polisïau Adran Prifffyrdd Gwynedd;

Cyngor Cefn Gwlad - Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Drafft) 2001; Gwynedd Gynladwy - taslenni 'Mor ffodus ydyn ni yng Ngwynedd';

Adran Cynllunio a Datblygu Economaidd Gwynedd - Cynllun Buddsoddi Trwy Ddylunio i gynorthwyo manwerthwyr newydd.

**Angen atgyweirio waliau:** dros y ffordd i fynedfa Eglwys Llandinorwig ac ar hyd ffordd Afon Goch. Hysbysu'r Adran Prifffyrdd.

Angen ail-wynebu'r ffordd drwy Ddinorwig, eto hysbysu Gwynedd.

**Diogelwch y ffyrdd.** Gwnaeth y Cyngorydd Dafydd Morris sylw ynglŷn â diogelwch o gwmpas ysgol Gwaun Gynfi a Thai Fictoria, Deiniolen.

Gan bod ceir yn dal i barcio wrth wal yr ysgol mae'n anodd i yrrwyr weld i gyfeiriad y pentref wrth ddod allan o faes parcio swyddogol yr ysgol.

Mae rhês o geir yn parcio o flaen Tai Fictoria yn achosi peryglon yn arbennig yn y nos. Wrth deithio i mewn i Ddeiniolen o gyfeiriad Rhiwen rhaid eu goddiweddyd, mae amryw wedi mynd ymlaen i wynebu ceir o'r cyfeiriad arall oherwydd bod rheini yn fflachio eu golau fel arwydd eu bod yn aros. Nid fflachio eu golau y maent ond mynd dros y tawelyddion sy'n cyfleu yr un effaith.

Mae parcio yma ac o flaen Pen y Golwg yn achosi peryglon hefyd, i'r ddau gyfeiriad, wrth ddod allan o Lôn y Fron. Tynnodd y Cyngorydd Sara Wood hefyd sylw at yr un peryglon gan gynnig ateb - beth yw'r gobaith o gael llain parcio o flaen Tai Fictoria fel a wnaed o flaen Rhês Faenol?

Nid yw'n dëg, ychwaith, bod rhês o finiau yn cael eu gadael wrth fur Pen y Golwg yn wythnosol - gallai rhan o'r llain parcio gael ei neulltuo ar eu cyfer.

Derbyniwyd sylwadau pellach gan Sara Wood ynglŷn â gwelliannau Deiniolen: Mae'n amlwg bod y gwaith presennol ar hyd y Stryd Fawr yn dod i ben. Oes bwriad i ymestyn y cynllun i gynnwys gweddill y pentref? Os nad oes, sut y penderfynwyd ar y ffiniau ger Tan Ffynnon a Lôn Penbont? Er engraffi, mae Tai Fictoria angen yr un driniaeth a gweddill y pentref, os rhywbeth, mae'r rhes yma'n bwysig fel prif fynedfa'r pentref.

Yn ystod cychwyn y gwaith, tacluswyd y pentref drwy danddaearu yr holl wasanethau, pam felly y mae polion ffôn yn dal i sefyll o flaen Festri Ebenezer ac o flaen

Rhes Faenol.

Penderfynwyd danfon y sylwadau i Adrannau perthnasol y Cyngor Sir.

**Cynllunio**

Ni fu gwrthwynebiad i unrhyw gais yn ystod y mis.

Ceisadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Cefn Braich, Rhiwlas - to newydd ac adeilad newydd yn lle'r *lean to*;

Ysbyty Fachwen - Annedd parhaol;

Dublin house, Dinorwig - Estyniad;

Bigil, Dinorwig - Un caban mesurydd yn lle'r ddau presennol;

Fferm Erw Fawr, Ffordd Bethel, Caernarfon - Sied Amaethyddol;

Llys y Gwynt, Penisa'rwaun - Tanciau nwy tanddacarol;

Bro Rhiwen, Rhiwlas - Tanciau nwy tanddacarol;

Gyferbyn a Pennant, Seion, Llanddeiniolen - Codi tŷ a mynedfa;

Allt Ddu, Dinorwig - Tir chwareon;

Tros y Waen, Penisa'rwaun - Estyn adcilad ar gyfer Capel Gorffwys, swyddfa a gweithdy; Glanrhyd, Pentir - Codi stôr tail crwn.

**Llwybrau.**

Ceisiadau i wiro llwybrau:

Llwybr 134 Tyddyn y Felin, Penisa'rwaun a Llwybr 119 Cae Hob, Llanddeiniolen.

Penderfynwyd gwrthwynebu'r ddau gais.

Cyflwynodd y Cyngorydd Phyllis Ellis yr adroddiad canlynol:

Gosodwyd arwyddion llwybrau, rai blynyddoedd yn ôl, fel rhan o welliannau Ardal y Llechen. Deallwyd, y pryd

hynny, y byddai prosiect arall i'w ddechrau i wella cyflwr y llwybrau ond 'does dim wedi ei wneud hyd yn hyn. Y mae clo a gwifren bigog yn cau llwybr Glasgoed i Gae Meta. Nid yw llwybr Cegin Arthur wedi ei glirio. Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir beth yw'r sefyllfa erbyn hyn.

Camfa a osodir yn gyffredinol wrth ail wneud neu wiro llwybr, trafodwyd hyn mewn cymhariaeth â giat mochyn. Cafwyd pleidlais o 5 i 1 o blaid camfa.

**Adroddiadau**

**Y Grŵp Cymunedol.**

Derbyniwyd adroddiad y Cyngorydd Dafydd Williams, ysgrifennydd y grŵp:

Ffordd Rhos Wian - yn gefnogol i wynebu lled llwybr troed;

Llwybr Cae Corniog - gofyn i Wynedd beth a drefnwyd i'w glirio;

Llyfryn hanes yr ardal - aelodau'r grŵp yn holi rhai sydd â diddordeb;

Trefnir gosod hysbyschwrdd o flaen Canolfan, Penisa'rwaun; Bwrdd Digidol i ysgolion, nid oes gan y Cyngor hawl i gyfrannu at sefydliad sy'n rhan o'r gyfundrefn addysg.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Grŵp am drefnu'r gwaith tarmacio ym mynedfa Stâd Y Rhôs, Bethel.

**Mater arbennig**

Cyfeiriodd y cadeirydd at fater o glôd i'r ardal - Mrs Katie Lloyd Hughes, Maes Eilian, Dinorwig wedi ennill Medal Gee am ei gwasanaeth i'r Ysgol Sul. Penderfynwyd danfon gair i'w llongyfarch.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf fydd y 1af o Ebrill.

## Am Offer Tŷ a Gardd...

**FORMAG**

41A STRYD FAWR, LLANBERIS  
Ffôn: (01286) 872501

**CAB GWYNEDD & DE YNYS MÔN**

Bangor • Caernarfon • Dolgellau • Pwllheli

Rydym angen

## GWIRFODDOLWYR

Ydych chi'n ddibynadwy ac yn gallu rhoi chwe awr o'ch amser bob wythnos? Nid oes angen profiad na sgiliau arbennig, cewch hyfforddiant llawn.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch:

**(01286) 677013**

Pa un o'r rhain sydd  
bwysicaf?

**YSWIRIO EICH Tŷ**  
(i arbed colled i chi);

**YSWIRIO EICH CAR**  
(i arbed colled i chi); neu

**YSWIRIO EICH BYWYD**  
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad  
yw cost yswiriant gyda **CDH**

**Andre (Bethel/Llanberis)**  
Bryn (Môn)

**Euryn (Caernarfon a'r cylch)**  
John Elfion (Penisa'rwaun)

**CDH**

Ymgynghorwyr Ariannol  
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055





## WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570



Plant Ysgol Gynradd Waunfawr wedi gwisgo eu gwisg Gymreig i ddathlu Gŵyl Ddewi 2003.

### YSGOL WAUNFAWR.

Cafodd plant yr Adran Iau y cyfle arbennig i ddefnyddio'r peiriant Cynhadledd Fideo gan gysylltu'n fyw â'r Amgueddfa Werin yng Nghaerdydd i siarad â Greg, yr adeiladydd a oedd yn gyfrifol am symud y beudy o'r Waunfawr i'w leoliad newydd yn Sain Ffagan.

Bu disgyblion Bl. 3, 4 a 5 yn holi Mr Ken Brazil, y Swyddog Addysg, yn fyw o'r Amgueddfa ar achlysur arall gan ei gyfarfod ar ymweliad maes â'r Gaer Rufeinig yn Segontium ddechrau mis Chwefror. Mawr yw ein diolch i Mr Brazil am gael benthycu'r peiriant gwyh yma ac am roi o'i amser i drefnu cysylltiad rhyngom ac Ysgol y Rhath yng Nghaerdydd. Hoffem ddiolch yr un modd i Mrs Ann Marston am roi o'i hamser i anfon sawl e-bost o fannau gwahanol ar ei thaith o gwmpas y byd. Rwy'n siwr y daw i'n gweld i adrodd ei hanes wedi iddynt gyrraedd yn ôl adref.

Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at Apêl Barnados - casglwyd y swm anrhydeddus o £342.00.

Cafwyd gwasanaeth arbennig i ddathlu Gŵyl Ddewi. Roedd llawer mwy o blant wedi gwisgo mewn dillad Gymreig eleni ac roedden nhw'n werth eu gweld. Diolch i'r rhieni.

Cawsom ddiwrnod difyr yng nghwmni Esyllt Harker ar Fawrth 3. Rhoddodd gyflwyniad Chwedl a Chân ar y thema 'Môr' i bob dosbarth. Mwynhaodd yr Adran Iau neges Atal Cyffuriau yng nghwmni Iau ar Fawrth 6. Cafodd Bl. 5 a 6 sesiwn ysgrifennu stori gyda Catherine Aran ar Fawrth 10. Daeth ein cyfeillion o'r Antur gyda Mr Dafydd Arfon i gynllunio a gwneud Blwch Adar gyda phlant Bl.6. Bu'n ddiwrnod dawnsio i bawb ar Fawrth 14 dan ofal Cwmni Dawns i Bawb - diwrnod gwerth chweil arall.

Efallai eich bod wedi gweld ein Sêr Teledu ar y rhaglen gelf newydd i blant Ribi Di Res. Llongyfarchiadau mawr i Guto, Dafydd Lloyd, Beca, Marek, Ynyr, Faye a Gwenllian am eu perfformiad. Llongyfarchiadau yr un modd i Guto o Bl. 2 am gael ei ddewis i actio rhan ei arwr, James Bond, ar raglen deledu.

Rydym fel ysgol yn casglu tocynnau Tesco a thocynnau creision Free Books for Schools - casglwyd digon ar gyfer cael teledu lliw i'r ysgol llynedd. Os oes rhai ohonoch yn y pentref yn

derbyn rhai, efallai y buasech garediced a'u cyfrannu i'r ysgol. Diolchir i chwi am eich cydweithrediad.

### TRIP YR YSGOL FEITHRIN.

Dydd Gwener, Mawrth 14 - dirwnod Comic Relief - aeth criw o 27 o Ysgol Feithrin y Waunfawr i Ganolfan Hamdden Arfon am fore o hwyl a drefnwyd gan TWF. Cafwyd hwyl yn chwarae yn y castell bownsio, neidio, dawnsio, gwylio pypedau a chael sgwrs gyda Sam Tân. Mwynhaodd pawb yn fawr a chafwyd casgliad ar y bys ar y ffordd adref i godi arian i Comic Relief. Llwyddwyd i gasglu £30. Diolch i chi i gyd am gefnogi.

Os am noson o hwyl, dewch am drip oedolion i Cofi Roc, Ebrill 5. Bys yn cychwyn o Ganolfan y Waunfawr am 7.00 o'r gloch. Elw at yr Ysgol Feithrin. Cysylltwch â Ffôn ar (01286) 650207.

Mae cynnig i drigolion y pentref i gyd. Dewch yn llw. Y cyntaf i'r felin.....!

CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Chwefror: £40: Mr E.W. Hughes, 15 Tref Eilian; £25: Mrs Bethan Thomas, Ty'n Llan; £10: Mr P. Greasley, 7 Pont Waen.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yng nghyfarfod diwethaf y Sefydliad a gynhaliwyd yn Ffesti Croesywaen ar Fawrth 6, croesawodd Mrs Catherine Jones, y Llywydd, Mr a Mrs R. Eaglestone. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn, gyda sleidiau, am eu taith chwe diwrnod mewn cwch i fyny'r ffordd yn Norwy. Diolchodd Mrs Alice Johnstone iddynt. Enillwyd y raffl, oedd wedi ei rhoi gan Mrs Pat Parry, gan Mrs Wenna Edwards.

Ar Ebrill 3 byddwn yn cael sgwrs ar *Reflexology*. Croeso cynnes i aelodau newydd.

### LLONGYFARCHIADAU

GENEDIGAETH. longyfarchiadau i John a Nicky, Stad Dôl Erddi ar enedigaeu eu hail fab bychan, Dewi, brawd bach i Bryn ac ŵyr i Mrs Bridget Ryan, Dôl Erddi. Mab bychan a anwyd i Sara ac Iwan Davies, Bryn Melyn hefyd. Llongyfarchiadau mawr iddynt a chroeso i'r bychan, Siôn Ifan.

DYWEDDIAD. Dymunwn longyfarch Valerie Roberts, Stad Bryn Golau ar ei dyweddïad â Christian Dixon yn ddiweddar.

PRIODAS. Dydd Gwener, Chwefror 20 yng Nghapel Croesywaen, gyda'r Parchedig Gwenda Richards yn gweinyddu ac Osian Gwynedd wrth yr organ, priodwyd Telor Hedd Iwan a Joanne Tame. Llongyfarchiadau i

chi eich dau, a phob dymuniad da i'r dyfodol.

### PEN-BLWYDD PRIODAS.

Llongyfarchiadau i Meira a Ron Turner, Collfryn a fu'n dathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Sarah Lewis, 4 Tref Eilian ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, blodau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddiweddar. Dymunwn ninnau i gyd ben-blwydd hapus hwyr i chi.

CROESO ADREF O'R YSBYTY. Derbyniodd Aled Taylor, Baladeulyn; Richard Rowlands, Stad Bryn Golau a Meira Turner, Collfryn lawdriniaethau yn yr ysbty yn ddiweddar.

Gorfu i Mr Robin Roberts, Stad Bryn Golau; Mr Gwilym Madoc Jones, Stad Tref Eilian; Leslie Jones, Bro Dawel; Mrs Llywela Davies, Stad Tref Eilian; Mrs

Gwladys Jones, Tref Eilian a George Jones o Dref Eilian dreulio cyfnod yn yr ysbty. Gobeithiwn eich bod i gyd yn gwella ar ôl cael dod adref.

YNYR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Miss Katie Roberts, Stad Tref Eilian sydd yn gwella ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. PROFEDIGAETH. Tristwch mawr oedd clywed am farwolaeth dau o'r pentref yn ystod y mis diwethaf. Yn frawychus o sydyn bu farw Rhian Llywela Jones, Tref Eilian (Rhian Rhoslan gynt). Cydymdeimlwn â'i merch Fflur ac â'i chwiorydd, Eryl Wyn a Nia a'u teuluoedd yn eu colled.

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr Will Jones, Arosfa. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i briod, Margaret; ei ddwy ferch, Ella, Sandra ac Emyr ac â'i wyrion, Siôn, Gareth ac Anest yn eu colled fawr.

## DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Eilidir, Dinorwig. Ffôn: 870292

HEL ACHAU. Yn 1862 mi aeth Griffith Evans o Tanrhiw, Tregarth, yn chwech ar hugain oed, i Awstralia ar y llong 'Shallimar'. Hefyd yn 1862 aeth Ellen Williams, yn bedair ar ddeg oed, merch David Williams (Asiant y Chwarel) a Catherine (Hughes), ei wraig o Ddinorwig ar y llong 'Aloe', hefyd i Awstralia.

Priodwyd Griffith ac Ellen yn Ballarat, Victoria, Awstralia yn 1869. Rwy'n meddwl bod yna bedwar o blant o'r briodas. Mi fuont yn byw yn Maryborough.

Un o deulu Griffith Evans yn Awstralia sy'n hel yr achau, ac isio gwybod a oes yna deulu yn Ninorwig sydd yn gwybod peth o'r hanes.

Dim ond un sydd ar ôl yn Nhregarth o deulu Griffith Evans. (Ffôn: 01248 600333).

ADREF O'R YSBYTY. Yr wyf yn siwr ein bod fel ardal yn falch o ddeall for Mr Dylan Morris, 9 Maes Eilian wedi cael dod adref o'r ysbty ar ôl derbyn llawdriniaeth, ac yn gwella o ddydd i ddydd. Brysfa wella, Dylan.

CLWB ORWIG. Yn y cyfarfod o'r uchod ar Chwefror 13, bu'r aelodau yn adrodd rhai o'u hoff farddoniaeth a straeon digri. Cafodd pawb ddarn o deisen ben-blwydd Dennis Glass, a ddigwyddai ddathlu'r amgylchiad ar ddydd Sant Ffolant. Ef hefyd enillodd y farged ffrwythau a llysiau a gyflwynir bob mis yn rhodd gan Glenys a Martin, y 'Veg Van'.

Diolchwyd i Sally a John Brennan a Joan Glass am wobrau eraill a'r te. Cyflwynwyd rhodd hefyd gan Alice Griffith. Enillwyr y

raffl oedd Morfudd Jones, John Brennan, John Cantrell ac Elizabeth Ann Jones.

Ddiwedd mis Chwefror, trefnwyd cinio Gŵyl Ddewi. Wedi'r wledd ymunodd pawb yn y dathlu trwy gyd-ganu alawon Cymreig a'r geiriau o waith Nellie Wyn Jones a soniai am weithgarwch y Glwb, i gyfeiliant trwmeped John Cantrell. Cafwyd peth o hanes Dewi Sant gan Morfudd Jones ac adroddiadau gan Margaret Foulkener a Ray Bower. Cyfraniad Betty Li. Roberts oedd tair cân a sgats ddigri. Bu llawer o hwyl pan ymddangosodd 'Band y Gegin' gyda'u hamrywiol lestri coginio, yn cael eu harwain gan Andrew Griffith, oedd wedi ei wisgo fel cogydd. Trefnwyd y gweithgareddau trwy gyd-ganu 'Hen Wlad fy Nhadau'.

Cyflwynwyd anrhegion pen-blwydd i John Brennan, Ray Bower ac Alice Griffith. Enillwyr y raffl oedd Ann Lo, Nellie Wyn Jones a Miss Marsli MacLoughlin (ymwelydd).

YN YR YSBYTY. Drwg gennym ddeall fod Mr Rex Faulkener, Fron Dirion, yn Ysbyty Gwynedd ers rhai dyddiau bellach. Rwyf yn siwr ein bod yn dymuno adferiad iechyd llwyr a buan iddo ac y cawn ei weld allan yn lled fuan.

PROFEDIGAETH. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â Mr Robert Williams, 3 Maes Eilian yn ei golled fawr o golli ei fam, Robin wedi bod yn deyrngar iawn i'w fam ac yn meddwl y byd ohoni.

Robin, derbyn ein cydymdeimlad fel ardal a gobeithio y cei nerth yn y dyddiau tywyll yma. Pob bendith.

## BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partiön, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan




(01248) 361044

**D. P. OWENS** RHIWLAS



## CROESAIR EBRILL



1 ar draws yng ngogledd Cymru ydi'r saith enw sydd heb gliwiau iddynt.

Ar draws:

- 11 Yr awyr sy'n mynd a dod yn y corf (5)
- 12 Tymer y truan meddw! (5)
- 13 Yn fudr neu hyd yn oed yn afiach (5)
- 14 'Roedd y rhain yn goch wrth gasglu arian ganol Mawrth (7)
- 15 Y cyfnodau tywyll (5)
- 16 Gorchudd mewn cacen pen-blwydd (3)
- 17 Serch ..... (6)
- 21 ..... ac wylo (4)
- 25 Gall Anest fod yn ferch wahanol! (5)
- 27 Tair o feddwon yn troi'n ôl! (5)
- 28 Yn glir fel nant y mynydd (5)
- 29 Wedi cleisio ..... (4)
- 30 ..... tra'n cweryla? (5)
- 31 Y llwch y bydd pobl yn ei sugno i'r trwyn (6)
- 34 Y gwryw o'r bodau dynol (3)
- 35 Yr elw a wneir wrth guro? (5)
- 40 Sefydlu rhai ffug yn y gcg? (5)
- 42 Eog gwryw (5)
- 43 Gall Carlo fod yn ddyn doeth iawn! (5)
- 45 Tref sirol Powys sy'n enwog am ei dyfrodd llesol (10)

I Lawr:

- 1 Yr hyn a yfir ar un llwnc (5)
- 2 Rhai sy'n cweryla (7)
- 3 Buarth i gadw gwair (5)
- 4 Adeiladu to neu nenfwd (5)

- 5 Cyrraedd ac ehangu (5)
- 7 Dolurus a chlwyfus (6)
- 8 Yn uwch na'r cyffredin mewn cyfartaledd (3)
- 9 Cyffroi a chynhyrfu (5)
- 10 Defnydd garw ym mhriodas Brian a Lisa (9)
- 16 Y modur deg sy'n cludo! (5)
- 18 Melodi lili'r dŵr (4)
- 20 Un sy'n gweithio â metel gwerthfawr (5)
- 23 Capel mewn pabell? (9)
- 24 Dull o siarad neu bwyslais ar sillaf (4)
- 26 Cyllell (5)
- 32 Dyn sy'n gofalu am eiddo rhywun arall neu'n gwarchod drws y pafiliwn (7)
- 33 Un sy'n byw ar ei ben ei hun (6)
- 34 Math o dreth lle telir y degfed ran o enillion i'r eglwys (5)
- 36 Camfa (5)
- 38 Defnydd gwyn, caled a welir ar y piano (5)
- 39 Tir cenedl (5)
- 41 Y cwbl mewn maint neu rifedi (3)

Derbynias atebion i groesair mis Chwefror gan Diane Jones, Clwt-y-Bont; M. P. Jones, Clynnog; Olwen Jones, Bethel; H. O. Hughes, Pwllheli; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog; N. Hughes, Cwm y Glo; Yera Griffiths, Llanberis; Alvona Jones, Prestatyn; Margaret

Roberts, Caernarfon; Mair Evans, Caernarfon; Nan Owen, Llanberis; Jennie Williams, Clynnog; Pat Owen, Caerfyrddin; Moreen Lennon, Llanberis; Eluned Jones, Trefor; Alice



Griffith, Dinorwig; Gwen Griffith, Deiniolen; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Huw Tegid Roberts, Llanrug; Nansi Davies, Rhuthun; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Catherine A. Jones, Rhiw; Jean Hughes-Jones, Rhiw; Megan Morris, Dinorwig; Olwen Owen, Llanberis a Ceridwen Williams, Llanrug.

Ymgais Gwen Griffith, Fron, Deiniolen ddaeth allan o'r het. Llongyfarchiadau a £5 i chi.

Ar ôl cwblhau croesair mis Ebrill, anfonwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, LL55 3HE erbyn Ebrill 21.

## Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW  
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD  
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

## GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870840

## LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

### WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang  
o Welyau a 3P/Suites.  
Llenni Venetian a Llenni Roler.  
5,000 llathen sgwâr o garpedi  
mewn stoc – allwch chi  
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

## Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr  
gan y bobl **BROFFESIYNOL**  
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**  
Y Gwasanaeth Technegol Gorau  
i'ch **CAR**. Cystal â  
Gwasanaeth Prif Ddeliwr  
Felly, pa gar bynnag ydych  
**CHWI** yn ei yrru,  
o Audi i Zastava



website: www.a-v-w.co.uk



Car new Fan  
Petrol neu Disel  
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth  
ni yn arbed **£££** ichwi  
ac yn ymestyn oes eich car



YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



## Royal Victoria Hotel LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer

PRIODASAU • PARTÏON • DATHLIADAU ac  
ACHLYSURON ARBENNIG

CYFLEUSTERAU CYNHADLEDDAU a  
PHWYLLGORAU

BWYDLEN BAR a CHINIO DYDD SUL

Ffôn: (01286) 870253



# CHWARAEON

## Y Gic Dyngedfennol



Arsenal neu Man Utd, neu Newcastle? Rangers neu Celtic? Bethel neu'r Bermo? Ydy, mae'n agos iawn am sawl pencampwriaeth eleni. Does dim i ddewis rhwng y ddau olaf a enwyd; bydd un ohonynt wedi eu siomi erbyn diwedd y tymor. Dyma ddau dîm gorau'r gynghrair a'r ddau yn awyddus am ddyrchafiad. Bydd Bethel yn ei gweld hi'n anodd i ddal gafael yn rhai o'u chwaraewyr ifanc addawol os na fydd dyrchafiad. Y mae'r chwaraewyr ieuan hyn, drwy eu ffithrwydd a'u gallu i lledu'r chwarae, yn cryfhau'r tîm.

Gafwyd gêm glos iawn rhwng y ddau gefyl blaen yn ystod y mis. Yn anffodus roedd cae caled, gwynt lletraws a chae cul yn diddymu nifer o'u cryfderau. Ar ddiwedd y dydd yr awch i frwydro am bopeth oedd y ffactor fwyaf rhyngddynt. Roedd mwy o benderfyniad yng nghanol cae y Bermo.

Y mae Bethel ar eu cryfaf fel tîm ymosodol, ac ar adegau mae gwendidau amddiffynnol ganol cae yn cael eu hamlygu. Tueddant i ymosod mewn llinell, ac felly anodd yw dod yn ôl i amddiffyn. Rho hyn bwysau ychwanegol ar y rhes gefn.

Gwelwyd Bethel ar eu gorau yn yr hanner cyntaf. I fyny'r allt ac i'r gwynt, roedd rheolaeth o'r bêl yn dda a gwnaed defnydd cyson o'r esgyl. Daeth gôl i Barry Lund wedi rhediad dda gan Owain Siôn – symudiad crefftus. Daeth y Bermo yn gyfartal drwy gôl flêr, a gyda'r elfennau o'u plaid roedd siawns dda gan Fethel.

Pob clod i'r Bermo am eu tactegau yn yr ail hanner. Cryfhawyd ganol cae gan orfodi Bethel i chwarae'r bêl hir yn ormodol. Daeth y feistrolaeth i'r ymwelwyr, ac aethant ar y blaen gyda chic o'r smotyn. Rhyw ddyfarniad o 'gryn bellter' oedd hwn, ond roedd yn benderfyniad

allweddol.

Cododd Bethel eu gêm ond y tueddiad, yn wahanol i'r hanner cyntaf, oedd chwarae'n rhy gul i lawr ganol y cae. Yr oedd rhai o'r chwaraewyr allweddol yn cael eu hamddifadu o'r bêl. Trawodd Huw Owens y traws, a daeth ambell hanner cyfle. Eto, roedd Bermo, drwy'r feistrolaeth ganol cae, yn cael ambell gyfle hefyd. Yna, gyda dau funud yn weddill daeth cyfle euraidd i Fethel. Y dyfarnwr yn dangos 'cysondeb' ac yn pwyntio i'r smotyn. Er i Jonathan Newell anelu am y gornel, cafwyd arbediad gwyd gan y gôl-geidwad. Arbediad i ennill pencampwriaeth tybed?

(Gyda llaw, diolch i Meic Roberts am ei lun gwyd a ddangosir uchod, yn cloriannu'r eiliad. Dyma engraifft o'r deunydd sydd ar safle we y clwb.)

Gyda'r ddau glwb yn disgwyl clywed am y penderfyniad ynglŷn â'r 'tri phwynt colledig', bydd cryn bwysau ar y gêm yn y Bermo ddiwedd y tymor. Ac efallai cwrdd yn rownd derfynol y Cwpan Iau. Digon i edrych ymlaen amdano o hyd.

## Tîm ar y 'Trac' Cywir

Yn un o ôl rifynnau'r Eco cefais sgwp pan gysylltodd Bryn Williams (Bryn Taff) â mi i ddweud ei fod am sefydlu tîm rasio moto' beics. O'r dyddiau cynnar hynny mae'r tîm uchelgeisiol yma wedi gwneud camau breision. Mae sawl elfen yn cyfrannu i lwyddiant unrhyw dîm – rheolaeth dda, noddwyr cefnogol a reidwyr dawnus. Yn y tair agwedd yma, bu'r tîm yn llwyddiannus ac maent am ymestyn eu gorwelion drwy gystadlu ar safon uwch. Mae

pencampwriaeth Cymru yn un targed, yn enwedig o gofio bod y prif reidiwr, Bryn Owen, wedi cipio pencampwriaeth 125cc y llynedd. Mae'r tîm yn croesawu dau 'aelod' newydd eleni. Yn y lifrau bydd Geraint Jones yn marchogaeth tipyn o beiriant, sef Yamaha R6. Y mae'r peiriant newydd yma yn galluogi'r tîm i gystadlu mewn mwy o rاسus ledled y wlad a thros y ffin. Yn sicr, rhoir mwy o sylw i'r tîm poblogaidd hwn. Braf fydd cadw trac o'u llwyddiannau, gobeithio!

## Llwyddiant ar y Mat

Weithiau ceir sylw i gemau dandod y gaeaf fel snwcer, pwl a dartiau. Ym myd y bowlïo mae gan yr ardal bencampwyr. Y tîm llwyddiannus yw'r Waunfawr, a gipiodd Gynghrair Gwynedd, wedi brwydr glos rhyngddynt â chlwb Llannerch-y-medd. Mae saith tîm yn y gynghrair yn ymestyn o Lannerch-y-medd a Chaergybi ar Ynys Môn i glydwch Chwilog. Trefn y mat byr yw'r gystadleuaeth ac, ar ddiwedd gaeaf o gystadlu, Y Waun a orfu gyda 95 pwynt, driphwynt yn fwy na Llannerch-y-medd.

Gyda nifer o bentrefi'r ardal gyda neuaddau addas erbyn hyn, ydy'r gamp hon yn un allai ymestyn tybed?

## Chwech o'r Gorau Eto!

Ie, dyna fu hanes Marc Lloyd Williams ym muddugoliaeth Fangor yn erbyn Llanelli o 8-0. Sgor rygbi, fel petai. Ni fu'r golïau yn llifo i Marc wedi ei ddychweliad i Ffordd Farrar, ond dyma ein hatgoffa o'i ddawn gynhenid. Roedd un o'r golïau – foli o 30 llath yn arbennig.

Ni ddaeth seithfed gôl i Marc, fuasai wedi ymestyn ei record ei hun. Sgoriodd chwech yn erbyn Rhaeadr y llynedd, yn ogystal; â rhwydo 5 gôl ddwywaith yn erbyn Derwyddon Cefn. Wedi'r siom o golli i Gwmbran yng Nghwpan Cymru, gobeithio y bydd golïau Marc yn cadw'r freuddwyd am bencampwriaeth yn fyw. Mae'n glos rhwng y ddinas, Y Barri a'r ffeffrynau, TNS.



Tîm Snwcer 'Duon Llanrug' – y potiwsr ifanc!

  
**J.M.  
JONES**  
**A'I FEIBION**  
**GWAITH  
CERRIG  
BEDDAU**

## Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith  
llaw traddodiadol  
Cerrig o bob math  
ar gael –

Ffôn: (01286)  
672898 (dydd)  
676285 (nos)

## Heliwch Dîm

Y mae Cymdeithas Cyfeillion Ysgol Brynrefail yn trefnu cystadleuaeth bêl-droed gymdeithasol ar Fai 1af. Y bwriad yw cynnal y gemau ar y cae-bob-tywydd gan ddechrau am 6 yr hwyr. Bydd deg ym mhob tîm, ond rhaid cynnwys dau wryw, dwy fenyw a dau neu ddwy oedolyn dros 18 oed yn y deg sydd ar y cae. Mae ffurflenni cystadlu i'w cael gan Selwyn Lloyd, 15 Bryn Moelyn, Llanrug (01286 675359). Rhaid cyflwyno'r ffurflenni cais i Swyddfa'r Ysgol erbyn EBRILL 11ed. Ymlaen â'r chwysu!